# Diweddariad ar Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr (GTAA) Cyngor Sir Ddinbych Adroddiad Terfynol Hydref 2023

Opinion Research Services | Y Strand • Abertawe • SA1 1AF | 01792 535300 |

www.ors.org.uk | info@ors.org.uk

# Opinion Research Services –Diweddariad ar Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr Cyngor Sir Ddinbych – Hydref 2023

Opinion Research Services, Y Strand, Abertawe, SA1 1AF

Steve Jarman a Michael Bayliss

Ymholiadau: 01792 535300 - info@ors.org.uk - www.ors.org.uk

© Hawlfraint Hydref 2023

Gall gynnwys gwybodaeth y sector cyhoeddus a drwyddedir dan y Drwydded Llywodraeth Agored f3.0

Gall gynnwys Data OS © Hawlfraint y Goron (2023)

# Opinion Research Services –Diweddariad ar Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr Cyngor Sir Ddinbych – Hydref 2023

Cynnwys


1. Crynodeb Gweithredol 5

Deddfwriaeth a Chanllawiau 11

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 13

Deddf Tai (Cymru) 2014 14

Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 16

Canllaw Llywodraeth Cymru – Dylunio a Rheoli Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr 17

Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych (2006-2021), Mabwysiadwyd yn 2013) 17

Diffiniad o Dermau Allweddol 18

3. Dadansoddiad o Ddata Presennol 19

Asesiadau Llety Sipsiwn a Theithwyr Presennol a Blaenorol 19

Data Poblogaeth – Cyfrifiad 2011 a 2021 20

Data Cyfrifiad Carafanau 23

Darpariaeth Llety Presennol 24

Safleoedd ac Iardiau yn Sir Ddinbych 27

4. Methodoleg 29

Grŵp Llywio Prosiect GTAA 29

Bwrdd Prosiect GTAA 31

Grwpiau Tasg a Gorffen 32

Ymgysylltu â Budd-ddeiliaid 34
Nodi a Dadansoddi Data Presennol 35
Rhoi Cyhoeddusrwydd i'r Asesiad Llety 36
Cynnal yr Arolygon Asesu Llety 37
5. Canfyddiadau'r Arolwg 45
6. Asesu Anghenion Llety 49
7. Casgliadau 69
Atodiad A: Diffiniad o Dermau Allweddol 71
Atodiad B: Safleoedd ac Iardiau yn Sir Ddinbych (Awst 2023) 77
Atodiad C: Log Cyfweliadau 79
Atodiad D: Crynodeb o'r Cyfweliadau ag Aelwydydd 81
Atodiad E: Crynodeb o'r Cyfweliad - Teithio Ymlaen 82
Atodiad F: Enghreifftiau o Gyhoeddusrwydd (GTAA 2021) 86
Atodiad G: Nodyn Technegol ar Ffurfio Aelwydydd a Chyfraddau Twf 93

# Opinion Research Services –Diweddariad ar Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr Cyngor Sir Ddinbych – Hydref 2023

## 1. Crynodeb Gweithredol

### Cyflwyniad a Dull

1.1. Prif amcan y Diweddariad hwn o’r Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr (GTAA) (2023) yw darparu asesiad cadarn o’r angen presennol ac yn y dyfodol ar gyfer llety Sipsiwn a Theithwyr [1] yn Sir Ddinbych.

1.2. Y rhesymau am y diweddariad yw ei fod wedi cael ei ddwyn i sylw’r Cyngor bod newidiadau wedi bod i statws meddiannaeth rhai o’r safleoedd a oedd wedi’u cynnwys yn y GTAA blaenorol, a bod teulu estynedig a wrthododd gymryd rhan mewn cyfweliad yn flaenorol bellach wedi cytuno i gael eu cyfweld. Mae’r diweddariad ar gyfer y gwaith maes a'r asesiad cyffredinol o angen yn unig

1.3. Mae’r GTAA yn darparu sylfaen dystiolaeth gadarn a chredadwy y gellir ei defnyddio i helpu i ddeall a darparu lleiniau Sipsiwn a Theithwyr, a darpariaeth dramwy bosibl, ar gyfer cyfnod Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych (CDLl) hyd at 2033. Bydd canlyniadau’r GTAA hwn yn disodli canlyniadau’r GTAA blaenorol a gymeradwywyd ac a gyhoeddwyd yn 2017. Cafodd gwaith ei wneud ar y GTAA newydd yn 2021 a chafodd hwn ei ddiweddaru wedyn yn 2023 i sicrhau bod y wybodaeth yn ymwneud ag anghenion ar gyfer pob aelwyd a nodwyd yn y Sir wedi’i chynnwys a’i bod yn gyfredol.

[1]Gweler Pennod 2 am y diffiniad cynllunio o Deithiwr yng Nghymru.

# Opinion Research Services –Diweddariad ar Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr Cyngor Sir Ddinbych – Hydref 2023

1.4. Mae'r GTAA wedi ceisio deall anghenion llety'r boblogaeth Sipsiwn a Theithwyr yn Sir Ddinbych trwy gyfuniad o ymchwil wrth ddesg, ymgysylltu â budd-ddeiliaid ac ymgysylltu ag aelodau o Gymuned y Teithwyr. Yn ogystal â hyn, yn ystod y gwaith a wnaed yn 2021 gwahoddwyd amrywiaeth o fudd-ddeiliaid lleol i fod yn aelodau o'r Grŵp Llywio Prosiect; sefydlwyd Grŵp Prosiect GTAA ehangach; a sefydlwyd Grŵp Tasg a Gorffen. Anfonwyd arolwg ar-lein hefyd i bob Aelod Etholedig, a phob Cyngor Dinas, Tref a Chymuned.

1.5. Yn dilyn ymgysylltiad cychwynnol â'r Cyngor, cwblhawyd cyfanswm o 15 o gyfweliadau â Sipsiwn a Theithwyr sy'n byw ar safleoedd diawdurdod, gwersylloedd diawdurdod, ac sy'n byw mewn llety brics a morter yn Sir Ddinbych. Mae hyn yn cynrychioli cyfradd ymateb o 100% o'r aelwydydd a nodwyd. Ni chafodd unrhyw iardiau Siewmyn Teithiol eu nodi yn Sir Ddinbych. Cwblhawyd y gwaith ymgysylltu ag awdurdodau lleol cyfagos a budd-ddeiliaid eraill yn ystod 2021 i drafod yr angen posibl am ddarpariaeth dramwy. Yn ogystal â hyn, ceisiodd y Swyddog Cyswllt Sipsiwn, Roma a Theithwyr ymgysylltu ag aelwydydd a oedd yn byw ar wersylloedd.

1.6. Y dyddiad targed ar gyfer y GTAA diwygiedig yw mis **Awst 2023.**

### Yr Angen am Leiniau – Sipsiwn a Theithwyr

1.7. Mae Canllawiau Llywodraeth Cymru yn gofyn am 2 asesiad o angen – ar gyfer 5 mlynedd gyntaf cyfnod y GTAA (2023/24 - 2027/28), ac ar gyfer cyfnod llawn y CDLl hyd at 2033.

# Opinion Research Services –Diweddariad ar Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr Cyngor Sir Ddinbych – Hydref 2023

1.8. Yn seiliedig ar y dystiolaeth a gyflwynwyd yn yr astudiaeth hon, amcangyfrifir bod angen **16 o leiniau** ychwanegol hyd at 2027/28 ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr yn Sir Ddinbych am 5 mlynedd gyntaf cyfnod yr Astudiaeth GTAA a bod angen **2 lain** arall am weddill cyfnod y CDLl hyd at 2033. Mae hyn yn golygu bod angen cyfanswm o **18 o leiniau** hyd at ddiwedd cyfnod y CDLl hyd at 2033. Dylid ystyried y ffigurau hyn fel y swm rhagamcanol o ddarpariaeth sy'n angenrheidiol i fodloni rhwymedigaethau statudol tuag at anghenion penodol y boblogaeth sy'n codi yn yr ardal. Mae'r ffigurau hyn yn cynnwys cyfuniad o leiniau diawdurdod; gwersylloedd diawdurdod; aelwydydd cudd/dwbl; symud o lety brics a morter; a ffurfio aelwydydd newydd.

1.9. Mae dadansoddiad manwl sy'n nodi'r cydrannau sy'n rhan o'r angen hwn a nodwyd, ynghyd ag unrhyw faterion eraill sydd wedi'u hystyried ar gael ym Mhennod 6 yr adroddiad hwn.

**Yr Angen am Leiniau - Siewmyn Teithiol**

1.10. Ni nodwyd bod unrhyw Siewmyn Teithiol yn byw yn Sir Ddinbych felly nid oes angen darparu lleiniau nawr nac yn y dyfodol dros gyfnod y CDLl hyd at 2033. Fodd bynnag, dylai'r Cyngor fonitro unrhyw ddulliau ar gyfer caniatâd cynllunio yn y dyfodol gan Siewmyn Teithiol a bod â pholisïau CDLl yn Seiliedig ar Feini Prawf priodol ar waith i ymdrin ag unrhyw geisiadau yn y dyfodol.

# Opinion Research Services –Diweddariad ar Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr Cyngor Sir Ddinbych – Hydref 2023

### Argymhellion Tramwy

1.11. Cadarnhaodd trafodaethau â budd-ddeiliaid lleol, awdurdodau lleol cyfagos, a dadansoddiad o gofnodion gwersylloedd diawdurdod, fod enghreifftiau o wersylloedd diawdurdod yn Sir Ddinbych, ond mai Teithwyr yw’r rhain fel arfer sy’n teithio drwodd at ddibenion gwaith gan fod yr ardal ar brif goridor teithio’r A55 ar draws Gogledd Cymru ar gyfer Teithwyr sy’n dod o Iwerddon ac yn mynd i Iwerddon ar y fferi o Gaergybi. Mae gwybodaeth anecdotaidd am ymweliadau rheolaidd o’r un aelwydydd ar adegau tebyg o'r flwyddyn yn adlewyrchu hyn hefyd.

1.12. Bu achosion lleol eraill o Deithwyr yn ymweld â Sir Ddinbych dros dro i fynd i briodasau neu ddigwyddiadau eraill, ond ni nodwyd unrhyw dystiolaeth ychwanegol o unrhyw anghenion llety hirdymor neu barhaol.

1.13. Nid oedd canlyniadau’r cyfweliadau ag aelwydydd a thrafodaethau â budd-ddeiliaid yn nodi bod angen darpariaeth dramwy barhaol yn lleol, er, cafwyd trafodaethau ynghylch yr angen am ragor o ddarpariaeth dramwy ledled Cymru.

1.14. Deallir bod y Cyngor wedi buddsoddi mewn cyflogi Swyddog Cyswllt Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn ddiweddar yn ogystal â ffurfioli proses fwy cydlynol ar gyfer rheoli gwersylloedd diawdurdod. Deallir bod hyn er mwyn sicrhau ymgysylltiad cynnar â theuluoedd sy'n teithio drwy Sir Ddinbych, ac i ddarparu dull cydlynol i sicrhau bod gwiriadau lles a chyfleusterau fel biniau a thoiledau yn cael eu darparu. Arweiniodd hyn at ymgysylltu â chyfanswm o 5 aelwyd a oedd yn byw ar wersylloedd yn ystod cyfnod gwaith maes y GTAA ac ni wnaeth neb fynegi angen penodol am ddarpariaeth dramwy ffurfiol. Bwriad y swydd hon hefyd yw meithrin gwell cysylltiadau rhwng y Cyngor a Chymuned y Teithwyr. Ar ôl trafod â’r Cyngor, daethpwyd i’r casgliad y gellid datblygu'r dull hwn ymhellach i fod yn sail i ddull mwy cynhwysfawr a reolir, yn cynnwys ystyried dewisiadau fel trafodaethau aros.

1.15. Er bod GTAA 2016 wedi nodi angen am leiniau tramwy yn Sir Ddinbych, mae tystiolaeth fwy diweddar yn awgrymu nad oes angen y rhain bellach ac y dylid ystyried dewisiadau eraill. Felly, argymhellir **nad oes angen i'r Cyngor ddarparu safle tramwy ar hyn o bryd** yn Sir Ddinbych o ganlyniad i nifer isel y gwersylloedd diawdurdod a natur tymor byr y gwersylloedd hyn.

1.16. Argymhellir hefyd bod y Cyngor yn parhau i fonitro nifer y gwersylloedd diawdurdod a'u bod yn ystyried goddefgarwch tymor byr (yn cynnwys trafod trefniadau aros) i ymdrin ag arosiadau tramwy tymor byr. Dylai'r dull rheoli hwn hefyd gynnwys ystyriaeth o ran a ddylid darparu toiledau, dŵr a chyfleusterau sbwriel. Mae nifer o enghreifftiau ledled Cymru a Lloegr pan fo dulliau yn seiliedig ar reoli o ran ymdrin â gwersylloedd diawdurdod wedi bod yn llwyddiannus. Mae enghraifft dda ar gael yn www.negotiatedstopping.co.uk. Ceir llawer o enghreifftiau hefyd pan fo awdurdodau lleol yn mabwysiadu ymagwedd fwy strategol a rhanbarthol o ran mynd i'r afael â materion tramwy gan gynnwys yn Essex, Swydd Gaerlŷr, Swydd Northampton gynt, a Hampshire.

# Opinion Research Services –Diweddariad ar Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr Cyngor Sir Ddinbych – Hydref 2023

## 2. Cefndir a Chyd-destun y Polisi

### Yr Astudiaeth

2.1. Cafodd Opinion Research Services (ORS) eu penodi gan Gyngor Sir Ddinbych (y Cyngor) fel ymgynghorwyr annibynnol i ddiweddaru GTAA 2017 ar gyfer cyfnod y CDLl newydd hyd at 2033.

2.2. Mae’r astudiaeth yn darparu sylfaen dystiolaeth i alluogi i’r Cyngor gydymffurfio â’u gofynion tuag at Sipsiwn a Theithwyr dan Ran 3 Deddf Tai (Cymru) 2014, ac i gefnogi Cynllun Datblygu Lleol Newydd Sir Ddinbych (2018-33). Mae’r Ddeddf yn gofyn i awdurdodau lleol gynnal GTAA Sipsiwn a Theithwyr o leiaf pob 5 mlynedd, ond mae gan awdurdodau lleol hyblygrwydd i gynnal yr asesiadau yn amlach os ceir newid sylweddol yn lefel yr angen yn yr ardal. Cafodd gwaith ei wneud ar GTAA newydd yn 2021 a chafodd hwn ei ddiweddaru wedyn yn 2023 i sicrhau bod y wybodaeth yn ymwneud ag anghenion ar gyfer pob aelwyd a nodwyd yn y Sir wedi’i chynnwys a’i bod yn gyfredol. Ym mis Medi 2019 ysgrifennodd Llywodraeth Cymru at bob awdurdod cynllunio lleol i gadarnhau bod angen i’r rhai sy’n cynnal adolygiad o’r CDLl sicrhau bod y GTAA yn sefydlu sylfaen dystiolaeth ar gyfer anghenion Sipsiwn a Theithwyr ar gyfer cyfnod cyfan y cynllun. Cadarnhaodd Llywodraeth Cymru hefyd y gallai hyn olygu y bydd angen cynnal GTAA newydd (a darparu dyraniadau safleoedd priodol, pan fo’n berthnasol) cyn yr ymgynghoriad statudol ar y ddogfen i’w harchwilio gan y cyhoedd i sicrhau bod cynlluniau’n gadarn drwy’r broses archwilio ac y gellir eu mabwysiadu. Dechreuodd Sir Ddinbych adolygiad o’u CDLl mabwysiedig (2006-2021) yn 2018.

# Opinion Research Services –Diweddariad ar Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr Cyngor Sir Ddinbych – Hydref 2023

2.3. Mae'r GTAA hwn yn darparu asesiad o'r angen am lety i Sipsiwn a Theithwyr yn Sir Ddinbych i fodloni'r gofynion hyn, gan ddiweddaru'r GTAA a gymeradwywyd ac a gyhoeddwyd yn 2017. Mae'n sylfaen dystiolaeth gadarn a chredadwy y gellir ei defnyddio i helpu i ddeall a darparu lleiniau Sipsiwn a Theithwyr, yn ogystal â chefnogi CDLl Newydd Sir Ddinbych (2018-2033).

2.4. Byddem yn nodi ar y cychwyn bod yr astudiaeth yn ymdrin ag anghenion Sipsiwn (gan gynnwys Sipsiwn o Loegr, yr Alban, Cymru a Romani), Teithwyr Gwyddelig, Teithwyr yr Oes Newydd, a Siewmyn Teithiol, ond er hwylustod, yr ydym ni wedi cyfeirio at yr astudiaeth fel GTAA.

2.5. Y dyddiad targed ar gyfer y GTAA diwygiedig yw mis **Awst 2023.**

## Deddfwriaeth a Chanllawiau

### Cylchlythyr Llywodraeth Cymru 005/2018

2.6. Mae Cylchlythyr Llywodraeth Cymru 005/2018 yn rhoi canllawiau wedi'u diweddaru ar yr agweddau cynllunio o ran nodi safleoedd cynaliadwy ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr. Mae hefyd yn sôn sut y gall awdurdodau cynllunio a Sipsiwn a Theithwyr gydweithio i gyflawni'r nod hwn. Mae'n disodli'r cyngor a geir yng Nghylchlythyr 30/2007 "Cynllunio ar gyfer meysydd carafanau Sipsiwn a Theithwyr", Cylchlythyr 78/91 "Siewmyn Teithiol" a Chylchlythyr 76/94 "Polisi Safleoedd Sipsiwn a Gwersylla Diawdurdod".

# Opinion Research Services –Diweddariad ar Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr Cyngor Sir Ddinbych – Hydref 2023

2.7. Mae'r Cylchlythyr yn cynnwys canllawiau ar amrywiaeth o faterion sy'n ymwneud â Sipsiwn a Theithwyr gan gynnwys:

- Y Diffiniad o Deithwyr
- Sipsiwn a Theithwyr - Cyd-destun
- Dyletswydd i Ddarparu Safleoedd
- Darparu'r Sylfaen Dystiolaeth
- Gweithio Rhanbarthol
- Cynlluniau Datblygu
- Prosiectau Datblygu Mawr
- Ardaloedd Dynodedig
- Ceisiadau Cynllunio
- Gorfodi
- Apeliadau
- Hawliau Dynol a Chyfle Cyfartal
- Monitro Ceisiadau Cynllunio

# Opinion Research Services –Diweddariad ar Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr Cyngor Sir Ddinbych – Hydref 2023

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

2.8. O ran Sipsiwn a Theithwyr, mae Cylchlythyr 005/2018 Llywodraeth Cymru yn nodi:

> *7. Bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn nodi fframwaith ar gyfer awdurdodau lleol ledled Cymru i sicrhau bod yr 'egwyddor datblygu cynaliadwy' (bodloni anghenion y presennol heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i fodloni eu hanghenion eu hunain) yn cael ei diwallu. Mae Adran 4 y Ddeddf yn gosod nifer o amcanion lles y dylai awdurdodau geisio eu cyflawni er mwyn bodloni'r egwyddor hon. Mae'r amcanion hyn yn cynnwys cyflawni 'Cymru o gymunedau cydlynus', sy'n cynnwys cymunedau deniadol, hyfyw, diogel sydd â chysylltiadau da, a 'Chymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu', sy'n cynnwys cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg.*
>
> *8.Mae tai yn fater sylfaenol sy'n effeithio ar fywydau pobl ledled Cymru, gan gynnwys ein cymunedau Sipsiwn a Theithwyr. Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio sicrhau bod dewis eang o lety ar gael i fodloni anghenion holl aelodau'r gymuned. Mae'n adlewyrchu ymrwymiad y Llywodraeth i sicrhau cyfle cyfartal i bob rhan o'r gymuned ac yn yr achos hwn, dylai Sipsiwn a Theithwyr gael cyfle cyfartal i gael gafael ar lety sy'n briodol yn ddiwylliannol yn yr un modd â holl aelodau eraill y gymuned.*

# Opinion Research Services –Diweddariad ar Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr Cyngor Sir Ddinbych – Hydref 2023

## Deddf Tai (Cymru) 2014

2.9. Mae Rhan 3 Deddf Tai (Cymru) 2014 (y Ddeddf) yn nodi bod yn rhaid i awdurdod tai lleol, ym mhob cyfnod adolygu, gynnal asesiad o anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr sy'n byw yn yr ardal neu'n troi ati.

2.10. Mae adran 102 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol baratoi adroddiad y mae'n rhaid iddynt ei gyflwyno i Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo sy'n:

- ➢ nodi sut y cynhaliwyd yr asesiad.
- ➢ cynnwys crynodeb o'r:
  - ymgynghoriad a wnaeth yn gysylltiedig â'r asesiad, a'r
  - ymatebion (os o gwbl) a gafwyd i'r ymgynghoriad hwnnw.
- ➢ nodi'r anghenion llety a nodwyd yn yr asesiad.

2.11. Pan gaiff ei gymeradwyo, mae'n rhaid i'r awdurdod tai lleol gyhoeddi'r asesiad.

2.12. Os nodir unrhyw anghenion yn adroddiad GTAA, mae Adran 103 y Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol arfer ei bwerau yn Adran 56 Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 hyd ag y bo angen i fodloni'r anghenion hynny

2.13. Mae adran 106 y Ddeddf yn nodi y dylai awdurdodau lleol roi sylw i unrhyw ganllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru. Cafodd canllawiau ar ymgymryd ag asesiadau GTAA eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru ym mis Mai 2015 ac mae'r Canllawiau hyn yn parhau yn 2020.

2.14. Mae Canllawiau GTAA yn ymdrin â'r materion canlynol::

- Pam mae angen GTAA penodol?
- Beth ddylai gael ei gynhyrchu?
- Gyda phwy y mae angen ymgynghori â nhw?
- Pa ffynonellau data sydd angen eu hadolygu?
- Deall diwylliant cymunedau Sipsiwn a Theithwyr.
- Sut i adnabod a chyfathrebu â Sipsiwn a Theithwyr?
- Sut i ddylunio, rheoli a chynnal GTAA?
- Cefnogaeth â gweithio mewn partneriaeth a gweithio'n rhanbarthol.
- Archwilio arolygon arbenigol, technegau, a chwestiynau i'w defnyddio.
- Sut mae 'anghenion' llety yn cael eu hasesu?
- Cyflwyno adroddiadau i Weinidogion Cymru.
- Sut i ddarparu ar gyfer anghenion a nodwyd?

2.15. Mae Adran 108 y Ddeddf yn nodi bod:

- **Anghenion llety**, ymhlith anghenion eraill, yn cynnwys anghenion yn gysylltiedig â darparu safleoedd lle mae modd gosod cartrefi symudol
- **Sipsiwn a Theithwyr** yn golygu pobl sydd ag arferion byw nomadaidd, beth bynnag fo'u hil neu eu tarddiad, gan gynnwys unigolion sydd, ar sail eu hanghenion addysgol neu iechyd neu henaint eu hunain neu eu teuluoedd neu ddibynyddion, wedi rhoi'r gorau i deithio dros dro neu'n barhaol; ac aelodau o grŵp wedi'i drefnu o bobl sioeau teithiol neu bobl syrcas teithiol (pa un a ydyn nhw'n yn teithio gyda'i gilydd ai peidio); a phob unigolyn arall sydd â thraddodiad diwylliannol o nomadiaeth neu o fyw mewn cartref symudol
- Mae ystyr **cartref symudol** yr un fath â'r hyn a geir yn adran 60 Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013.

# Opinion Research Services –Diweddariad ar Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr Cyngor Sir Ddinbych – Hydref 2023

## Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013

2.16. Mae Canllawiau GTAA yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol fodloni dyletswydd gyfreithiol i arfer eu swyddogaethau i ddarparu lleiniau cartrefi symudol i ddiwallu unrhyw anghenion a nodir. Mae'r rhain wedi'u nodi yn Adran 60 Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013.

2.17. Yn y Ddeddf hon mae "cartref symudol" yn golygu:

- Unrhyw strwythur a ddyluniwyd neu a addaswyd i bobl fyw ynddo y gellir ei symud o un lle i'r llall (boed hynny drwy gael ei dynnu, neu drwy ei gludo ar gerbyd modur neu drelar) ac unrhyw gerbyd modur sydd wedi'i ddylunio neu ei addasu i bobl fyw ynddo ond nid yw'n cynnwys unrhyw gerbydau rheilffordd sydd ar gledrau am y tro ac sy'n rhan o system reilffordd, neu unrhyw babell.
- Strwythur wedi'i ddylunio neu wedi'i addasu i bobl fyw ynddo nad yw'n cynnwys mwy na 2 adran sydd wedi'i adeiladu ar wahân ac wedi'i ddylunio i'w osod ar safle gan ddefnyddio bolltau, clampiau, neu ddyfeisiau eraill, a phan fydd wedi'i osod, y mae modd ei symud ar y ffordd o un lle i'r llall (boed hynny drwy gael ei dynnu, neu drwy gael ei gludo ar gerbyd modur neu drelar).

# Opinion Research Services –Diweddariad ar Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr Cyngor Sir Ddinbych – Hydref 2023

## Canllaw Llywodraeth Cymru – Dylunio a Rheoli Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr

2.18. Yn ogystal â chyhoeddi canllawiau ar gynnal Asesiadau Llety Sipsiwn a Theithwyr ym mis Mai 2015, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau ychwanegol hefyd ar ddylunio a rheoli safleoedd Sipsiwn a Theithwyr er mwyn cynorthwyo awdurdodau lleol i fodloni anghenion Sipsiwn a Theithwyr. Bwriedir i'r ddwy ddogfen hyn fod yn ganllaw i gynorthwyo Awdurdodau Lleol i ddarparu gwasanaethau priodol am gost resymol i'r cyhoedd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr sy'n byw ar safleoedd preswyl yng Nghymru. Maen nhw'n cynnwys canllawiau ymarferol i gynorthwyo awdurdodau lleol i sicrhau bod safleoedd yn addas at y diben, a'r ffordd orau o reoli safleoedd cyhoeddus i Deithwyr. Nid yw'r canllawiau yn statudol. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn rhagweld y bydd y canllawiau yn helpu awdurdodau lleol ac eraill i ddatblygu, gwella a rheoli safleoedd Sipsiwn a Theithwyr, a bydd yn rhan o ystyriaeth Llywodraeth Cymru wrth asesu ceisiadau am gyllid Grant Cyfalaf Safleoedd yn ymwneud â safleoedd Sipsiwn a Theithwyr.

## Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych (2006-2021), Mabwysiadwyd yn 2013)

2.19. Cafodd CDLl Sir Ddinbych (2006-2021) ei fabwysiadu gan Gyngor Sir Ddinbych ar 4 Mehefin 2013 a daeth yn weithredol ar unwaith. Gwnaeth y CDLl mabwysiedig ddisodli Cynllun Datblygu Unedol cynharach Sir Ddinbych.

2.20. Mae'r CDLl yn cynnwys un polisi yn ymwneud â Sipsiwn a Theithwyr – Polisi CCC 10 - Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr.

# Opinion Research Services –Diweddariad ar Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr Cyngor Sir Ddinbych – Hydref 2023

Polisi CCC 10 - Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr

Caniateir cynigion ar gyfer meysydd carafannau Sipsiwn a Theithwyr (gan gynnwys safleoedd cymysg preswyl a busnes) ar yr amod bod y meini prawf canlynol yn cael eu bodloni:

1. bod y safle wedi'i leoli y tu allan i Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol, Rhwystrau Glas a Safle Treftadaeth y Byd Traphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte (gan gynnwys y glustogfa); a
2. bod y safle wedi'i leoli o fewn neu ar gyrion ffin anheddiad sefydledig a bod amrywiaeth o gyfleusterau/gwasanaethau ar gael (gan gynnwys ysgolion), cludiant cyhoeddus a phrif lwybrau cludiant; a,
3. bod y cynnig yn darparu mannau chwarae, storio a pharcio addas ar y safle; ac,
4. na fyddai'r cynnig yn cael effaith niweidiol ar amwynder deiliaid eiddo cyfagos.

Ni chaniateir safleoedd mewn lleoliadau eraill oni bai y dangosir nad oes safleoedd o fewn neu ar gyrion ffiniau aneddiadau sefydledig ar gael a bod y meini prawf uchod i gyd yn cael eu bodloni.

Bydd y Cyngor yn nodi meysydd carafanau parhaol a safleoedd tramwy ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr os bydd angen heb ei ddiwallu yn cael ei nodi ar gyfer Sir Ddinbych yn Asesiad Marchnad Dai Leol Gogledd Orllewin Cymru.

## Diffiniad o Dermau Allweddol

2.21. Mae Canllawiau GTAA 2015 yn cynnwys diffiniadau cyffredin a ddefnyddiwyd yn y Canllawiau ac a fydd hefyd yn cael eu defnyddio yn Adroddiad y GTAA. Gellir dod o hyd i'r rhain yn **Atodiad A**.

# Opinion Research Services –Diweddariad ar Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr Cyngor Sir Ddinbych – Hydref 2023

## 3. Dadansoddiad o Ddata Presennol

3.1. Diben yr adran hon o’r GTAA yw nodi gwybodaeth gyfredol yn ymwneud â’r boblogaeth Sipsiwn a Theithwyr yn Sir Ddinbych gan gynnwys asesiadau blaenorol o angen, data demograffig-gymdeithasol, data’r cyfrifiad carafanau a’r ddarpariaeth bresennol o ran llety.

### Asesiadau Llety Sipsiwn a Theithwyr Presennol a Blaenorol

#### GTAA Sir Ddinbych 2017

3.2. Cafodd y GTAA mwyaf diweddar a gymeradwywyd yn ffurfiol ar gyfer Sir Ddinbych ei gyhoeddi yn 2017. Yn seiliedig ar y dystiolaeth a gyflwynwyd yn yr astudiaeth, amcangyfrifir mai 6 llain breswyl a 4 - 5 o leiniau tramwy yr oedd eu hangen ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr yn Sir Ddinbych bryd hynny. Yn dilyn cymeradwyo’r GTAA gwnaed galwad am safleoedd a nodwyd safle posibl yn Greengates, Llanelwy. Gwrthodwyd rhoi caniatâd cynllunio i’r safle preswyl yn 2020 a gwnaed y penderfyniad i beidio â bwrw ymlaen â’r safle a nodwyd yn Greengates ar gyfer safle tramwy. Cafodd ORS eu comisiynu i gynnal GTAA newydd a chafodd hwn ei gwblhau a’i gyflwyno i Lywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2021. Gwnaeth y teulu a oedd i fod i gael safle Greengates wrthod bod yn rhan o GTAA 2021. Ar ôl i’r Cabinet gymeradwyo GTAA 2021 penderfynodd y teulu eu bod nhw’n dymuno cymryd rhan ac o ganlyniad i hyn, comisiynodd y Cyngor ddiweddariad o waith 2021 a chafodd y teulu eu cyfweld wedi hynny a’u hanghenion eu cynnwys yn adolygiad 2023. Mae'r GTAA hwn yn cyflwyno'r asesiad o angen yn Sir Ddinbych wedi’i ddiweddaru.

3.3. O ystyried y ffaith nad oedd unrhyw Siewmyn Teithiol yn byw yn Sir Ddinbych, ni chynhaliwyd asesiad o angen.

# Opinion Research Services –Diweddariad ar Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr Cyngor Sir Ddinbych – Hydref 2023

## Data Poblogaeth – Cyfrifiad 2011 a 2021

3.4. Gwnaeth dadansoddiad o ddata Cyfrifiad 2021 yn ymwneud â'r boblogaeth Sipsiwn a Theithwyr nodi cyfanswm o 23 o aelwydydd a nododd eu bod nhw'n Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig a oedd yn byw yn Sir Ddinbych, a gwnaeth 14 o aelwydydd nodi eu bod nhw'n Roma (categori ethnigrwydd newydd y cafodd ei gynnwys yng Nghyfrifiad 2021 ) – sy'n cynrychioli llai na 0.08% o aelwydydd. Mae'n debygol y gallai hyn fod yn danamcangyfrif o ystyried bod llai na'r cyfartaledd o aelodau o'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr wedi ymateb i'r Cyfrifiad.

# Opinion Research Services –Diweddariad ar Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr Cyngor Sir Ddinbych – Hydref 2023


3.5. Nid yw’r dadansoddiad manwl o Gyfrifiad 2021 wedi’i gwblhau eto, ond mae data o Gyfrifiad 2011 yn nodi rhai gwahaniaethau demograffig sylweddol o gymharu â’r boblogaeth gyfan. Mae'r rhain yn bwysig o ran egluro'r gyfradd uwch o aelwydydd newydd sy'n cael eu ffurfio ar gyfer aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr o gymharu â'r boblogaeth sefydlog. Yn gryno, mae Cyfrifiad 2011 yn dangos, yn genedlaethol, ar gyfer Cymru a Lloegr:

- Bod gan ychydig dan hanner aelwydydd Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig blant dibynnol (45%), o gymharu â 29% ar gyfer Cymru a Lloegr yn gyffredinol.
- .Mai oed canolrifol Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig oedd 26 oed o'i gymharu â'r oed canolrifol cenedlaethol o 39 oed.
- » 6% yn unig o'r boblogaeth Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig oedd yn 65 oed neu’n hŷn o gymharu â ffigur cenedlaethol o 16%.
- Mai Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig dan 20 oed oedd 39% o'r boblogaeth o gymharu â ffigur cenedlaethol o 24%.
- Mai Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig dan 10 oed oedd 20% o'r boblogaeth o gymharu â ffigur cenedlaethol o 12%.
- Mai Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig oedd â’r gyfran isaf o bobl a nododd bod eu hiechyd yn dda neu’n dda iawn, sef 70%, o gymharu â ffigur cenedlaethol o 81%.

# Opinion Research Services –Diweddariad ar Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr Cyngor Sir Ddinbych – Hydref 2023

3.6. Mae'r siart isod yn dangos y strwythur oedran ar gyfer y boblogaeth gyfan (Pawb) a'r boblogaeth Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig yng Nghymru a Lloegr. Mae hyn yn dangos bod cyfran uwch o blant Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig ac oedolion iau, a bod cyfran llawer is o unigolion 50 oed a hŷn. Mae hyn o ganlyniad i gyfraddau geni uwch a disgwyliad oes is ar gyfer y boblogaeth Sipsiwn a Theithwyr. Yn anffodus, o ganlyniad i nifer isel y boblogaeth Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig sy'n byw yn Sir Ddinbych a nodwyd yng Nghyfrifiad 2011 nid yw'n bosibl cymharu'n ystyrlon ar lefel leol.

Ffigur 1 - Cymharu Strwythur Oedran y Cyfrifiad (Cyfrifiad 2011)



# Opinion Research Services –Diweddariad ar Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr Cyngor Sir Ddinbych – Hydref 2023

## Data Cyfrifiad Carafanau

3.7. Ffynhonnell arall o wybodaeth wedi'i chyhoeddi am y boblogaeth Sipsiwn a Theithwyr yw Cyfrifiad Carafanau Sipsiwn a Theithwyr Llywodraeth Cymru sy'n defnyddio data wedi'i ddarparu gan Awdurdodau Lleol ac sy'n cael ei gyhoeddi ddwywaith y flwyddyn.

3.8. Mae hwn yn cyfrif nifer y carafanau ar safleoedd awdurdodedig a diawdurdod ledled Cymru. Gan mai cyfrif carafanau ac nid aelwydydd sy'n digwydd yma, mae'n ei gwneud yn anodd iawn dehongli a defnyddio'r data ar gyfer astudiaeth fel hon gan nad yw'n cyfrif lleiniau, aelwydydd preswyl, na demograffeg aelwydydd. Adlewyrchu cyfnod y mae'r data a gyhoeddwyd gan yr Awdurdod Lleol sef ar ddiwrnod penodol ym mis Ionawr a mis Gorffennaf, ac felly nid oes unrhyw safleoedd neu wersylloedd diawdurdod a nodwyd ar ddyddiadau eraill wedi'u cofnodi. Yn yr un modd ni fydd unrhyw garafanau nad ydynt ar y safleoedd ar y diwrnod y byddan nhw'n cael eu cyfrif yn cael eu cynnwys. Nid yw'r cyfrifiad yn ceisio pennu statws ethnig deiliaid y carafannau chwaith.

3.9. Fodd bynnag, mae'r data a gasglwyd yn y Cyfrifiad Carafanau yn rhoi syniad o nifer y safleoedd, a'r carafanau awdurdodedig a diawdurdod ym mhob awdurdod lleol, a gall fod yn ddefnyddiol wrth gefnogi'r gwaith o bennu unrhyw anghenion tramwy a nodi tueddiadau o flwyddyn i flwyddyn i gefnogi'r asesiad o anghenion.

3.10. Yn fwy diweddar yng Nghymru mae system fyw wedi'i rhoi ar waith sy'n galluogi awdurdodau lleol i uwchlwytho manylion am wersylloedd pan fyddan nhw'n digwydd drwy gydol y flwyddyn.

3.11. Mae data diweddaraf Cyfrifiad Carafanau Sipsiwn a Theithwyr Cymru o fis Ionawr 2023 a chafodd ei gyhoeddi ym mis Ebrill 2023.

3.12. Mae’r data cyfres amser diweddaraf sydd ar gael ac sydd wedi’i gyhoeddi ar StatsCymru, o fis Ebrill 2020. Mae dadansoddiad o Ddata’r Cyfrifiad Carafanau ar gyfer Sir Ddinbych rhwng mis Ionawr 2010 a mis Gorffennaf 2021 yn dangos bod 2 safle diawdurdod wedi’u cofnodi yn y blynyddoedd diwethaf. Roedd 3 carafán a oddefir ar 1 safle a 3 carafán nad ydynt yn cael eu goddef ar y safle arall.

3.13. Nododd data o Gyfrifiad Carafanau Ionawr 2023 gyfanswm o 3 carafán ar safleoedd diawdurdod sy’n cael eu goddef, a 3 carafán ar safleoedd diawdurdod nad ydynt yn cael eu goddef, ar 2 safle diawdurdod.

3.14. Yn ogystal â hyn, rhoddodd y Cyngor fanylion yr holl wersylloedd a gofnodwyd o 2014 a chawsant eu dadansoddi i helpu i benderfynu a oedd angen darpariaeth dramwy. Gweler Pennod 6 i gael rhagor o fanylion.

## Darpariaeth Llety Presennol

3.15. Un o brif ystyriaethau’r astudiaeth hon yw rhoi tystiolaeth i gefnogi’r gwaith o ddarparu lleiniau i fodloni anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr yn Sir Ddinbych yn awr ac yn y dyfodol. Yn gyffredinol, mae llain yn ardal sy’n ddigon mawr i un aelwyd ei feddiannu ac fel arfer mae’n cynnwys digon o le ar gyfer un neu ddwy garafán ond gall amrywio o ran maint. Mae safle yn gasgliad o leiniau sy’n ffurfio datblygiad ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr yn unig. Ar gyfer Siewmyn Teithiol, y disgrifiadau mwyaf cyffredin a ddefnyddir yw llain ar gyfer y man sy’n cael ei feddiannu gan un aelwyd ac iard ar gyfer casgliad o leiniau sydd fel arfer yn cael eu meddiannu'n gyfan gwbl gan Siewmyn Teithiol.

# Opinion Research Services –Diweddariad ar Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr Cyngor Sir Ddinbych – Hydref 2023

3.16. Mae'r ddarpariaeth gyhoeddus a phreifat o dai prif ffrwd hefyd yn cael ei hadlewyrchu i raddau helaeth wrth ystyried llety Sipsiwn a Theithwyr. Un math cyffredin o safle Sipsiwn a Theithwyr yw safle preswyl cyhoeddus, sydd wedi’i ddarparu gan Awdurdod Lleol neu Gymdeithas Tai. Fel arfer gellir cael lleiniau ar safleoedd cyhoeddus trwy gofrestru ar restr aros, a bydd rhent gan y tenantiaid yn talu costau cynnal y safleoedd hyn (yn debyg i dai cymdeithasol).

3.17. Y dewisiadau eraill i safleoedd preswyl cyhoeddus yw safleoedd preswyl preifat ac iardiau ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr. Mae'r rhain yn deillio o unigolion neu deuluoedd yn prynu darnau o dir ac yna'n cael caniatâd cynllunio i fyw arnynt. Gall aelwydydd hefyd rentu lleiniau ar rai safleoedd preifat sy’n cael eu rhedeg ar sail fasnachol. Felly, mae’r ddau fath hyn o lety yn cyfateb i berchnogaeth breifat a rhentu ar gyfer pobl sy’n byw mewn tai brics a morter. Yn gyffredinol, mae’r rhan fwyaf o iardiau Siewmyn Teithiol yn eiddo preifat ac yn cael eu rheoli’n breifat.

3.18. Mae gan y boblogaeth Sipsiwn a Theithwyr hefyd fathau eraill o safleoedd o ganlyniad i’w natur symudol. Mae safleoedd tramwy yn tueddu i gynnwys llawer o’r un cyfleusterau â safleoedd preswyl, ond mae cyfnod preswyl penodol a all amrywio o gyfnod o rai wythnosau i gyfnod o fisoedd. Dewis arall yn lle safle tramwy yw man aros brys. Mae gan y math hwn o safle hefyd gyfyngiadau ar yr amser y gall rhywun aros arno ond mae ganddo lai o gyfleusterau. Dewis arall arall yw Cytundeb Trafodaethau Aros sy’n caniatáu i deuluoedd Sipsiwn a Theithwyr sefydlu gwersylloedd tymor byr ar yr amod eu bod nhw’n cytuno i amodau penodol. Mae'r rhain wedi'u cynllunio i ddarparu ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr, am gyfnod dros dro, wrth iddynt deithio. Mae nifer o awdurdodau hefyd yn gweithredu polisi gwersylla a dderbyniwyd pan fo arosiadau tymor byr yn cael eu goddef heb gamau gorfodi.

# Opinion Research Services –Diweddariad ar Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr Cyngor Sir Ddinbych – Hydref 2023

3.19. Ystyriaethau pellach ar gyfer y boblogaeth Sipsiwn a Theithwyr yw datblygiadau a gwersylloedd diawdurdod. Mae datblygiadau diawdurdod yn digwydd ar dir sy'n eiddo i Sipsiwn a Theithwyr neu pan geir cymeradwyaeth perchnogion tir, ond nad oes ganddynt ganiatâd cynllunio at ddibenion preswyl. Mae gwersylloedd diawdurdod fel arfer yn rhai tymor byr ac yn digwydd ar dir nad yw'n eiddo i Sipsiwn a Theithwyr – er enghraifft cilfannau neu feysydd parcio.

# Opinion Research Services –Diweddariad ar Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr Cyngor Sir Ddinbych – Hydref 2023

## Safleoedd ac Iardiau yn Sir Ddinbych

3.20. Yn Sir Ddinbych, ar ddyddiad targed y GTAA, nid oedd gan unrhyw safleoedd ganiatâd cynllunio, ac yr oedd 2 safle diawdurdod (7 llain). Nid oedd darpariaeth dramwy chwaith.

3.21. Er gwaethaf ymdrechion i'w nodi, ni ddaethpwyd o hyd i unrhyw iardiau Siewmyn Teithiol yn Sir Ddinbych. Mae hyn yn cyd-fynd â chanfyddiadau o Asesiadau Llety Sipsiwn a Theithwyr blaenorol ar gyfer Sir Ddinbych.

3.22. Mae rhagor o fanylion ar gael ym Mhennod 5 ac **Atodiad B**.

Ffigur 2 - Cyfanswm y ddarpariaeth yn Sir Ddinbych (Awst 2023)

| Categori | Safleoedd/Iardiau | Lleiniau |
|---|---|---|
| Safleoedd preifat â chaniatâd cynllunio parhaol | 0 | 0 |
| Safleoedd preifat â chaniatâd cynllunio dros dro | 0 | 0 |
| Safleoedd cyhoeddus | 0 | 0 |
| Darpariaeth dramwy gyhoeddus (tymhorol) | 0 | 0 |
| Darpariaeth dramwy breifat | 0 | 0 |
| Safleoedd a oddefir | 0 | 0 |
| Safleoedd diawdurdod | 2 | 7 |
| Iardiau Siewmyn Teithiol | 0 | 0 |
| Cyfanswm | 2 | 7 |

# Opinion Research Services –Diweddariad ar Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr Cyngor Sir Ddinbych – Hydref 2023

Ffigur 3 - Safleoedd ac Iardiau yn Sir Ddinbych (Awst 2023)

| Enw'r Safle | Lleiniau | Statws |
|---|---|---|
| Diawdurdod 1 | 1 | Diawdurdod |
| Diawdurdod 2 | 6 | Diawdurdod |
| Cyfanswm | 7 | |

# Opinion Research Services –Diweddariad ar Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr Cyngor Sir Ddinbych – Hydref 2023

## 4. Methodoleg

4.1. Mae'r adran hon yn nodi'r fethodoleg a ddefnyddiwyd i gyflawni'r canlyniadau ar gyfer yr astudiaeth hon. Mae Canllawiau GTAA Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd dan Adran 106 Deddf Tai (Cymru) yn nodi'r gofynion ar gyfer y GTAA ac mae'r fethodoleg a'r broses o gyfrifo angen a ddilynwyd wedi ceisio mynd i'r afael â'r rhain a chaniatáu ar gyfer cwblhau GTAA llawn a chadarn. Mae'r astudiaeth wedi'i chynnal gan ORS, ar y cyd â Chyngor Sir Ddinbych, ac mae'r dull a ddefnyddiwyd yn cynnwys y meysydd gwaith craidd canlynol:

- Grŵp Llywio Prosiect GTAA.
- Bwrdd Prosiect GTAA.
- Grŵp Tasg a Gorffen
- Nodi a dadansoddi ffynonellau data presennol.
- Rhoi cyhoeddusrwydd i'r asesiad llety.
- Cynnal yr arolygon asesu llety.
- Cyfrifo anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr.

4.2. Mae'r camau isod yn rhoi crynodeb o'r fethodoleg a ddefnyddiwyd i gwblhau'r astudiaeth hon.

## Grŵp Llywio Prosiect GTAA

4.3. Mae Canllawiau GTAA Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol bod Grŵp Llywio Prosiect yn cael ei sefydlu i sicrhau bod yr astudiaeth yn cael ei llywio gan yr holl wybodaeth ac arbenigedd lleol sydd ar gael. Gwnaeth y Cyngor sefydlu a rheoli Grŵp Llywio ar y Cyd ar gyfer Sir Ddinbych a Chonwy yn rhan o'r gwaith a wnaed yn 2021 gan mai comisiwn ar y cyd ydoedd. Yr unigolion a oedd yn bresennol yng nghyfarfodydd Grŵp Llywio GTAA oedd:

# Opinion Research Services –Diweddariad ar Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr Cyngor Sir Ddinbych – Hydref 2023

Ffigur 4 – Aelodaeth Grŵp Llywio Prosiect GTAA

| Sefydliad | Swydd |
|---|---|
| Cyngor Sir Ddinbych | Aelod Arweiniol Cynllunio, Diogelu'r Cyhoedd a Chymunedau Mwy Diogel |
| Cyngor Sir Ddinbych | Rheolwr Cynllunio Strategol a Thai |
| Cyngor Sir Ddinbych | Rheolwr Prosiect Arweiniol |
| Cyngor Sir Ddinbych | Uwch Swyddog, Cynllunio Strategol a Thai |
| Cyngor Sir Ddinbych | Uwch Swyddog, Cynllunio Strategol a Thai |
| CB Conwy | Aelod Cabinet Gwasanaethau Tai a Rheoleiddio |
| CB Conwy | Rheolwr Polisi Cynllunio Strategol |
| Opinion Research Services | Ymgynghorydd |
| Opinion Research Services | Ymgynghorydd |
| Teithio Ymlaen | Arweinydd Ymgysylltu Gogledd Cymru |
| Teithio Ymlaen | Rheolwr Tîm |

4.4. Fel y nodir yng Nghanllaw GTAA, prif gyfrifoldebau'r Grŵp Llywio oedd cytuno ar nod ac amcanion yr astudiaeth; hyrwyddo manteision yr astudiaeth i aelodau Cymuned y Teithwyr; helpu i nodi aelwydydd sy'n byw mewn llety brics a morter ac ar safleoedd a gwersylloedd diawdurdod; cynnig mewnbwn arbenigol gan fudd-ddeiliaid i nodi anghenion lleol; rhoi adborth ar yr allbynnau sy'n codi o'r astudiaeth; a rhannu a hyrwyddo'r canlyniadau terfynol i aelodau Cymuned y Teithwyr. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y Grŵp Llywio ym mis Mehefin 2021, cynhaliwyd ail Gyfarfod y Grŵp Llywio ym mis Tachwedd 2021, a chynhaliwyd Cyfarfod olaf y Grŵp Llywio ym mis Ionawr 2022. Cafodd y cyfarfodydd i gyd eu cynnal ar-lein o ganlyniad i COVID-19.

# Opinion Research Services –Diweddariad ar Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr Cyngor Sir Ddinbych – Hydref 2023

4.5. Trafododd cyfarfod cyntaf y Grŵp Llywio gefndir y GTAA ac eglurwyd diben a swyddogaeth y Grŵp. Cafodd ffyrdd o gyfleu'r GTAA hefyd eu trafod, ynghyd â chyfleoedd i ymgysylltu ag aelwydydd sy'n byw mewn llety brics a morter. Roedd ail gyfarfod y Grŵp Llywio yn gyfle i gael y wybodaeth ddiweddaraf am ganlyniadau'r asesiad o anghenion a chyfle i drafod cynnwys Adroddiad Drafft y GTAA. Gwnaeth cyfarfod olaf y Grŵp Llywio drafod rhannu'r Adroddiad GTAA, gan drafod sut y gellid cyfleu canlyniadau'r astudiaeth i aelodau Cymuned y Teithwyr a sut i fynd i'r afael â'r angen a nodwyd ym Mholisïau'r CDLl.

## Bwrdd Prosiect GTAA

4.6. Yn ogystal â sefydlu Grŵp Llywio GTAA fel sy'n ofynnol gan Ganllawiau GTAA Llywodraeth Cymru, gwnaeth y Cyngor hefyd sefydlu Bwrdd Prosiect GTAA i gefnogi'r GTAA. Prif ddiben y Bwrdd Prosiect oedd darparu trosolwg, cyfeiriad a llywodraethu ar gyfer y prosiect GTAA a'i ffrydiau gwaith yn Sir Ddinbych. Roedd hefyd yn fforwm ar gyfer rheoli cyfathrebu ac ymgysylltu â budd-ddeiliaid. Gweithredodd mewn modd tebyg i Fyrddau Prosiect eraill yn yr awdurdod lleol, gan reoli manylion y prosiect gan gynnwys cynnydd, materion a risgiau. Gwnaeth y Bwrdd Prosiect gyfarfod yn fisol o fis Mehefin 2020 hyd at gwblhau'r gwaith yn 2021. Gwnaeth y Bwrdd Prosiect ailgymgynnull ym mis Rhagfyr 2022 i gefnogi Diweddariad GTAA 2023 ac mae wedi cyfarfod yn fisol ers mis Chwefror 2023.

4.7. Roedd aelodaeth Bwrdd Prosiect GTAA yn cynnwys yr aelodau canlynol a oedd â hawliau pleidleisio llawn:

Ffigur 5 – Aelodaeth Bwrdd Prosiect GTAA sy'n Ailymgynnull

| Swydd |
| --- |
| Aelod Arweiniol Datblygu Lleol a Chynllunio |
| Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad |
| Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd |
| Cyfarwyddwr Corfforaethol - Yr Amgylchedd a'r Economi |
| Pennaeth Tai a Gwasanaethau Cymunedol |

## Grwpiau Tasg a Gorffen

4.8. Cafodd Grŵp Tasg a Gorffen ei sefydlu hefyd gan y Cyngor i gefnogi GTAA 2021. Gwnaeth y Grŵp hwn ailymgynnull hefyd i gefnogi Diweddariad GTAA 2023. Dibenion allweddol y Grŵp oedd:

- Sicrhau bod y dull a ddefnyddiwyd i gyflawni'r Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr newydd yn cydymffurfio â methodoleg Llywodraeth Cymru a bod adborth blaenorol yn cael ei ystyried yn y ddogfen newydd, yn unol â'r gofynion Craffu.
- Monitro cynnydd a chynghori yn ôl yr angen ar gyflawni'r Asesiad, a helpu i ddatblygu Cynllun Ymgysylltu â Budd-ddeiliaid addas i fodloni pryderon a gofynion Craffu.

4.9. Cafodd cyfanswm o 5 cyfarfod y Grŵp eu cynnal rhwng mis Mai a mis Medi 2021, a chynhaliwyd cyfarfod terfynol ym mis Tachwedd 2021 i drafod Adroddiad Drafft GTAA. Ers ailgynnull, mae'r Grŵp wedi cyfarfod 3 gwaith ers mis Mawrth 2023.

# Opinion Research Services –Diweddariad ar Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr Cyngor Sir Ddinbych – Hydref 2023

4.10. Roedd aelodaeth y Grŵp Tasg a Gorffen yn cynnwys Aelodau Etholedig a benodwyd gan bob un o 6 Grŵp Ardal Aelodau'r Cyngor, ynghyd â chefnogaeth gan Swyddogion. Yn ogystal â hyn, cafodd unigolion eraill eu gwahodd i fynd i rai cyfarfodydd y grŵp i drafod materion penodol:

Ffigur 6 - Grŵp Tasg a Gorffen GTAA a Ailgynullwyd

| Swydd |
| --- |
| Cynrychiolydd Grŵp Ardal Aelodau Elwy (Cadeirydd) |
| Cynrychiolydd Grŵp Ardal Aelodau Dyffryn Dyfrdwy |
| Cynrychiolydd Grŵp Ardal Aelodau Dinbych |
| Cynrychiolydd Grŵp Ardal Aelodau Prestatyn |
| Cynrychiolydd Grŵp Ardal Aelodau'r Rhyl |
| Cynrychiolydd Grŵp Ardal Aelodau Rhuthun |
| Aelod Arweiniol Datblygu Lleol |
| Rheolwr Cynllunio Strategol a Thai |
| Rheolwr Prosiect Corfforaethol |

4.11. Rhagwelir y bydd rhagor o gyfarfodydd y Bwrdd Prosiect a'r Grŵp Tasg a Gorffen a ailgynullwyd yn cael eu cynnal i drafod canlyniadau'r GTAA hwn.

# Opinion Research Services –Diweddariad ar Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr Cyngor Sir Ddinbych – Hydref 2023

## Ymgysylltu â Budd-ddeiliaid

4.12. Yn ogystal â'r Grŵp Llywio, cysylltwyd â nifer o fudd-ddeiliaid sy'n cael eu rhestru yn Atodiad 1 Canllawiau GTAA i nodi a oedd ganddyn nhw unrhyw faterion penodol yr oedden nhw'n dymuno eu codi yn ymwneud â Sipsiwn a Theithwyr yn Sir Ddinbych. Y sefydliadau y cysylltwyd â nhw oedd:

- Friends, Families and Travellers
- Gypsies & Travellers Wales
- Roma Support Group
- The Bridges Project
- Y Cyngor Sipsiwn
- Ffederasiwn Cenedlaethol grwpiau Cyswllt Sipsiwn
- The Showmen's Guild of Great Britain - De Cymru
- The Traveller Movement
- The Unity Project
- Teithio Ymlaen

4.13. Cysylltwyd â nhw tua dechrau'r cyfnod ymchwil cychwynnol yn 2021 felly yr oedd cyfnod o sawl mis ganddyn nhw i ymateb. Yn ogystal â hyn, anfonwyd negeseuon e-bost atgoffa at y sefydliadau hynny nad oedd wedi ymateb. Yr unig ymateb a gafwyd oedd gan Teithio Ymlaen a cheir crynodeb o'r cyfweliad a gwblhawyd yn 2021 yn **Atodiad E**. Mae hyn yr un peth â'r holl Asesiadau Llety Sipsiwn a Theithwyr eraill y bu ORS yn ymwneud â nhw ledled Cymru o ran y ffaith mai gan Teithio Ymlaen yn unig y cafwyd ymateb. Deallir nad yw llawer o'r sefydliadau sydd wedi'u rhestru yng nghanllawiau GTAA LIC (Atodiad A) yn bodoli mwyach.

# Opinion Research Services –Diweddariad ar Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr Cyngor Sir Ddinbych – Hydref 2023

## Nodi a Dadansoddi Data Presennol

4.14. Cynhaliwyd adolygiad wrth ddesg i gasglu a dadansoddi amrywiaeth o ddata eilaidd a gwybodaeth leol arall a ddefnyddiwyd i nodi a chefnogi'r asesiad o'r angen am lety yn awr ac yn y dyfodol, gan gynnwys:

- Cofnodion cynllunio
- Data'r cyfrifiad
- Cofnodion safleoedd a rhestrau aros
- Data Cyfrifiad Carafanau
- Cofnodion o safleoedd/gwersylloedd diawdurdod
- Gwybodaeth am apeliadau/ceisiadau cynllunio
- Gwybodaeth am gamau gorfodi.
- Asesiadau Llety Sipsiwn a Theithwyr presennol ac astudiaethau lleol perthnasol eraill
- Polisi, canllawiau ac arferion gorau cenedlaethol a lleol presennol

# Opinion Research Services –Diweddariad ar Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr Cyngor Sir Ddinbych – Hydref 2023

## Rhoi Cyhoeddusrwydd i'r Asesiad Llety

4.15. Er mwyn cael cefnogaeth gan aelodau Cymuned y Teithwyr wrth baratoi'r GTAA i sicrhau eu bod nhw'n gallu ac yn fodlon cymryd rhan yn y cyfweliadau safleoedd ac aelwydydd a rhoi gwybodaeth gywir, yr oedd yn bwysig bod cyhoeddusrwydd effeithiol a rhagrybudd ar waith. Roedd hyn hefyd yn bwysig iawn o ran nodi aelwydydd sy'n byw mewn llety brics a morter i'w cyfweld yn rhan o'r astudiaeth.

4.16. Cafodd y dull o roi cyhoeddusrwydd ei drafod ag aelodau'r Grŵp Llywio cyn i'r gwaith maes ddechrau. Roedd y cyhoeddusrwydd hwn a roddwyd ar waith yn cynnwys y camau gweithredu isod ac mae enghreifftiau ar gael yn **Atodiad F**:

- Datganiadau i'r Wasg
- Gwybodaeth ar wefan y Cyngor
- Gwybodaeth yng nghylchlythyr ar-lein y Cyngor i drigolion 'Llais y Sir'.
- Hysbysebion cyfryngau cymdeithasol
- Posteri mewn amrywiaeth o leoliadau cymunedol a llyfrgelloedd
- Hyrwyddo trwy wasanaethau rheng flaen gan gynnwys y Bwrdd Iechyd Lleol a Heddlu Gogledd Cymru.
- Ymgysylltu ar-lein ag Aelodau Etholedig, a Chynghorwyr Dinas, Tref a Chymuned.
- Sefydliadau eiriolaeth Sipsiwn a Theithwyr i rannu gwybodaeth
- Swyddogion Cyswllt Sipsiwn i rannu gwybodaeth ar lafar
- Cyswllt â sefydliadau a nodir yng Nghanllawiau GTAA Llywodraeth Cymru.

4.17. Ni chafodd y dull hwn ei ailadrodd ar gyfer Diweddariad GTAA 2023 gan fod y Cyngor yn ymwybodol o'r safleoedd Sipsiwn a Theithwyr presennol i gyd yn Sir Ddinbych.

# Opinion Research Services –Diweddariad ar Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr Cyngor Sir Ddinbych – Hydref 2023

## Cynnal yr Arolygon Asesu Llety

### Cyfweliadau ag Aelwydydd

4.18. Trwy'r ymchwil wrth ddesg a gwybodaeth flaenorol gan y Grŵp Llywio, bu ORS yn gweithio'n agos â'r Cyngor i nodi pob safle, iard a gwersyll awdurdodedig a diawdurdod yn Sir Ddinbych, a gwnaethon nhw geisio cynnal astudiaeth ddemograffig lawn o'r preswylwyr ar bob llain – fel sy'n ofynnol gan Ganllawiau GTAA Llywodraeth Cymru.

4.19. Cafwyd manylion cyswllt ar gyfer preswylwyr y safle gan y Cyngor a chafwyd caniatâd gan drigolion cyn i unrhyw wybodaeth gyswllt o ran rhifau ffôn gael ei rhannu ag Ymchwilwyr o ORS trwy e-bost diogel.

4.20. Cysylltodd Ymchwilwyr o ORS â phreswylwyr ar safleoedd dros y ffôn i drefnu apwyntiad i gwblhau cyfweliad wyneb yn wyneb. Fodd bynnag, gofynnodd pob aelwyd y cysylltwyd â nhw am gael cwblhau eu cyfweliadau dros y ffôn. Cwblhawyd cyfweliadau â phob aelwyd gan ddefnyddio cwestiynau Llywodraeth Cymru ar gyfer cyfweld ag aelwydydd ar gyfer GTAA.

# Opinion Research Services –Diweddariad ar Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr Cyngor Sir Ddinbych – Hydref 2023

### Cyfweliadau Brics a Morter

4.21. Wrth ymgymryd â’r gwaith a gwblhawyd yn 2021 bu ORS yn gweithio'n agos gyda'r Cyngor i nodi ac annog aelwydydd sy'n byw mewn llety brics a morter i gymryd rhan yn yr asesiad. Ceisiwyd cysylltiadau trwy aelodau'r Grŵp Llywio, sgwrsio â phobl ar safleoedd presennol a hysbysebion ar y cyfryngau cymdeithasol, a thrwy bosteri wedi’u harddangos ar hysbysfyrddau cymunedol ac yn y cymunedau lleol. Cafwyd caniatâd i rannu rhifau ffôn ag Ymchwilwyr o ORS.

4.22. Ar gyfer Diweddariad GTAA 2023, cysylltodd ORS â'r Cyngor i nodi unrhyw gysylltiadau ychwanegol ar gyfer aelwydydd sy'n byw mewn llety brics a morter a nodwyd cyfanswm o 4 aelwyd.

4.23. Cysylltodd Ymchwilwyr o ORS â phreswylwyr a oedd yn byw mewn llety brics a morter dros y ffôn i drefnu apwyntiad i gwblhau cyfweliad wyneb yn wyneb. Fodd bynnag, gofynnodd pob un o’r 4 aelwyd y cysylltwyd â nhw am gael cwblhau eu cyfweliadau dros y ffôn, neu ar Teams. Cwblhawyd cyfweliadau â phob aelwyd gan ddefnyddio cwestiynau Llywodraeth Cymru ar gyfer cyfweld ag aelwydydd ar gyfer GTAA.

# Opinion Research Services –Diweddariad ar Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr Cyngor Sir Ddinbych – Hydref 2023

### Cyfrifo Anghenion Llety Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn Teithiol.

4.24. Mae Canllawiau GTAA Llywodraeth Cymru yn nodi methodoleg fanwl i asesu anghenion lleiniau nawr ac yn y dyfodol. Dilynwyd y dull hwn at ddiben y GTAA hwn.

4.25. Yn yr un modd ag unrhyw asesiad tai, mae'r cyfrifiad sylfaenol yn cynnwys nifer gymharol fach o ffactorau. Yn yr achos hwn, y mater allweddol ar gyfer lleiniau preswyl yw cymharu'r cyflenwad o leiniau sydd ar gael i'w meddiannu ag anghenion y boblogaeth yn awr ac yn y dyfodol. Cafwyd y wybodaeth hon drwy ganlyniadau'r cyfweliadau safleoedd ac aelwydydd a'r ymchwil wrth ddesg. Mae'r ffactorau allweddol ym mhob un o'r elfennau hyn wedi'u nodi isod.

### Cyflenwad Presennol o Leiniau Preswyl

- Lleiniau'r Awdurdod Lleol wedi'u meddiannu
- Lleiniau preifat awdurdodedig wedi'u meddiannu
- Lleiniau gwag yr Awdurdod Lleol a lleiniau preifat gwag sydd ar gael
- Lleiniau a ddisgwylir iddynt fod yn wag yn y dyfodol agos
- Lleiniau newydd yr Awdurdod Lleol a lleiniau preifat â chaniatâd cynllunio

# Opinion Research Services –Diweddariad ar Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr Cyngor Sir Ddinbych – Hydref 2023

**Galw Presennol am Ddarpariaeth Breswyl**

4.26. Mae'r galw presennol am ddarpariaeth breswyl yn cynnwys y cydrannau canlynol. Roedd yn bwysig gwneud defnydd llawn o'r ymchwil wrth y ddesg a gwybodaeth gan aelodau'r Grŵp Llywio i fynd i'r afael â chyfrif ddwywaith (er enghraifft, aelwydydd sy'n byw mewn llety brics a morter sydd hefyd ar y rhestr aros am leiniau):

- Aelwydydd ar ddatblygiadau diawdurdod
- Aelwydydd ar wersylloedd diawdurdod
- Aelwydydd cudd/gorlawn/dwbl[2]
- Tai confensiynol – symud o lety brics a morter[3].
- Aelwydydd newydd i gyrraedd o restrau aros/mudo i fewn.

---

[2]Yn dilyn y canllawiau a nodir ym Mharagraffau 195-201 Canllawiau GTAA.
[3]Yn dilyn y canllawiau a nodir ym Mharagraffau 172-183 Canllawiau GTAA.

# Opinion Research Services –Diweddariad ar Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr Cyngor Sir Ddinbych – Hydref 2023

### Galw yn y Dyfodol

4.27. Mae’r galw yn y dyfodol o ganlyniad i ffurfio aelwydydd newydd yn ystod cyfnod yr astudiaeth. Mae ORS wedi gwneud ymchwil helaeth i dwf poblogaeth ac aelwydydd y gymuned Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru a Lloegr (**Atodiad G**). Cafodd hwn ei ddefnyddio i lywio’r elfen hon o Ganllawiau GTAA Llywodraeth Cymru (gweler Paragraffau 203-209). Mae paragraff 203 yn nodi bod yr ymchwil a gwblhawyd gan ORS yn awgrymu bod cyfradd twf derbyniol fel arfer rhwng 1.50% - 3.00% y flwyddyn ac mae Paragraff 204 yn nodi y dylai Awdurdodau Lleol ddadansoddi’r data demograffig sy’n cael ei ddarparu gan aelodau’r gymuned i ystyried eu twf aelwydydd eu hunain a ddisgwylir yn y dyfodol.

4.28. Mae gwybodaeth o'r cyfweliadau safleoedd yn rhoi manylion am nifer gros yr aelwydydd newydd y disgwylir iddynt ffurfio yn ystod 5 mlynedd gyntaf yr astudiaeth.

4.29. Mae'r amcangyfrif o ran ffurfio aelwydydd newydd ar gyfer y blynyddoedd sy'n weddill o'r astudiaeth wedi'i gwblhau ar sail tystiolaeth ddemograffig o'r cyfweliadau safleoedd. Mae rhagor o dystiolaeth i gefnogi’r dull a ddefnyddiwyd i gyfrifo aelwydydd newydd yn ffurfio wedi’i nodi ym Mhennod 6.

### Canlyniadau Terfynol

4.30. Mae holl gydrannau cyflenwad a galw wedi’u cyflwyno mewn tabl sy’n rhwydd ei ddeall fel y nodir yng Nghanllawiau’r GTAA yn Nhabl 3.

# Opinion Research Services –Diweddariad ar Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr Cyngor Sir Ddinbych – Hydref 2023

### Darpariaeth Dramwy

4.31. Mae’r GTAA hefyd yn cynnwys asesiad o anghenion am unrhyw safleoedd tramwy neu fannau aros dros dro i fodloni anghenion aelodau Cymuned y Teithwyr sydd naill ai’n teithio’n barhaol neu am ran o’r flwyddyn. Er mwyn ymchwilio i’r angen posibl am ddarpariaeth dramwy wrth gynnal y GTAA, mae ORS wedi cynnal dadansoddiad o gofnodion safleoedd a gwersylloedd diawdurdod a nodwyd yn ystod yr ymchwil wrth y ddesg. Mae data o Gyfrifiad Carafannau Sipsiwn a Theithwyr hefyd wedi'i ystyried fel tystiolaeth ategol.

### Cydymffurfio â’r Rhestr Wirio Ymgysylltu

4.32. Mae’r tabl isod yn dangos bod y GTAA wedi cydymffurfio â’r holl bwyntiau sydd wedi’u nodi ar y Rhestr Wirio Ymgysylltu yng Nghanllawiau GTAA Llywodraeth Cymru.

# Opinion Research Services –Diweddariad ar Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr Cyngor Sir Ddinbych – Hydref 2023

Ffigur 7 – Rhestr Wirio Ymgysylltu

| Rhif | Tasg | Cwblhawyd |
|---|---|---|
| 1 | Ymweld â phob un o aelwydydd Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn Teithiol a nodwyd drwy'r broses dadansoddi data hyd at 3 gwaith, os oes angen.<br>*Roedd yn bosibl i Ymchwilwyr ORS gysylltu ag aelwydydd sy'n byw ar bob safle yn Sir Ddinbych, ac yr oedd modd cyfweld â'r holl aelwydydd preswyl a nodwyd dros y ffôn. [Diweddarwyd]* | ✓ |
| 2 | Cyhoeddi manylion y broses GTAA, gan gynnwys manylion cyswllt i ganiatáu i aelodau o'r gymuned wneud cais am gyfweliad, ar wefan yr Awdurdod lleol, gwefan Travellers' Times a chylchgrawn World's Fair. Yn ogystal â hyn, cafodd hysbysebion eu gosod gan Lywodraeth Cymru.<br>*Gwnaed gwaith helaeth i hyrwyddo'r GTAA ac mae manylion ar gael yn Atodiad F. Fodd bynnag, daeth World's Fair i ben fel papur newydd wythnosol yn 2019 (er yr oedd cynlluniau i'w ail-lansio yn 2021) ac nid yw Travellers' Times yn cyhoeddi manylion Asesiadau Llety Sipsiwn a Theithwyr mwyach ar eu tudalennau Facebook* | ✓ |
| 3 | Ymgynghori â sefydliadau cefnogaeth gymunedol, fel y rheiny sydd yn Atodiad 1.<br>*Ceisiwyd ymgysylltu â'r sefydliadau i gyd sydd wedi'u rhestru yn Atodiad 1 Canllawiau'r GTAA. Yr unig sefydliad a ymatebodd oedd Teithio Ymlaen a chwblhawyd cyfweliad dros y ffôn â'u Rheolwr Tîm. Mae crynodeb o ganlyniadau'r cyfweliad ar gael yn Atodiad E.* | ✓ |
| 4 | Creu rhestr aros ar gyfer lleiniau a thai yr Awdurdod Lleol, sy'n hygyrch ac sy'n cael ei rhoi i aelodau'r gymuned.<br>*Nid oes unrhyw safleoedd cyhoeddus yng Nghyngor Sir Ddinbych.* | ✓ |
| 5 | Ceisio cynnwys Sipsiwn a Theithwyr ar Grŵp Llywio Prosiect GTAA.<br>O ganlyniad i'r ffaith mai ychydig o aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr yn unig sydd yn y sir, nid oedd yn bosibl annog aelod o'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr fod yn rhan o'r Grŵp Llywio. | ✓ |

## Opinion Research Services –Diweddariad ar Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr Cyngor Sir Ddinbych – Hydref 2023

| Rhif | Tasg | Cwblhawyd |
|---|---|---|
| 6 | Sicrhau bod manylion cyswllt y cafodd eu rhoi gan aelodau o'r gymuned i'r Awdurdod Lleol yn ystod proses yr arolwg yn cael eu holrhain a bod eu hanghenion yn cael eu hasesu.<br>*Cysylltwyd â phawb y darparwyd gan yr awdurdod lleol a chynhaliwyd cyfweliadau â phob aelwyd. [Diweddarwyd]* | ✓ |
| 7 | Ystyried cynnal digwyddiadau gwybodaeth GTAA ar safleoedd (neu gerllaw) i esbonio pam y dylai aelodau o’r gymuned gymryd rhan ac annog preswylwyr y safle i ddod â phobl eraill gyda nhw nad yw’r Awdurdod Lleol efallai’n gwybod amdanynt.<br>*O ganlyniad i’r ffaith mai ychydig iawn o Deithwyr sydd yn Sir Ddinbych ac yn sgil cyfyngiadau COVID-19, nid oedd yn bosibl cynnal unrhyw ddigwyddiadau gwybodaeth ar y safle.* | ✓ |

# Opinion Research Services –Diweddariad ar Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr Cyngor Sir Ddinbych – Hydref 2023

## 5. Canfyddiadau'r Arolwg

### Cefndir

5.1. Nododd yr ymchwil wrth y ddesg, a gwybodaeth ychwanegol gan y Cyngor, gyfanswm o 2 safle Sipsiwn a Theithwyr diawdurdod a dim un iard Siewmyn Teithiol yn Sir Ddinbych. Nodwyd hefyd bod cyfanswm o 4 aelwyd yn byw ar wersylloedd diawdurdod a bod 4 aelwyd yn byw mewn llety brics a morter.

Ffigur 8 - Safleoedd yn Sir Ddinbych (Awst 2023)

| Enw'r Safle | Lleiniau | Statws |
|---|---:|---:|
| Diawdurdod 1 | 1 | Diawdurdod |
| Diawdurdod 2 | 6 | Diawdurdod |
| Amrywiaeth (x4) | 4 | Gwersylloedd |
| Amrywiaeth (x4) | Amherthnasol | Brics a Morter |
| CYFANSWM | 11 | |

5.2. Ceisiwyd cynnal cyfweliadau ag aelwydydd ar y safleoedd a'r gwersylloedd rhwng mis Mehefin 2023 a mis Awst 2023 a chwblhawyd 7 cyfweliad yn llwyddiannus ar y 2 safle a'r gwersylloedd. Yn ogystal â hyn, cwblhawyd 4 cyfweliad ag aelwydydd a oedd wedi nodi eu bod nhw'n byw mewn llety brics a morter. Roedd hyn yn cyfateb i gyfradd ymateb o 100% o ran lleiniau wedi'u meddiannu ac aelwydydd.

# Opinion Research Services –Diweddariad ar Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr Cyngor Sir Ddinbych – Hydref 2023

Ffigur 9 – Cyfweliadau a gwblhawyd yn Sir Ddinbych (Awst 2023)

| Enw’r Safle/Iard | Lleiniau | Cyfweliadau | Gwrthodiadau |
|---|---|---|---|
| Diawdurdod 1 | 1 | 1 | 0 |
| Diawdurdod 2 | 6 | 6 | 0 |
| Diawdurdod 3 | 1 | 1 | 0 |
| Diawdurdod 4 | 1 | 1 | 0 |
| Diawdurdod 5 | 1 | 1 | 0 |
| Diawdurdod 6 | 1 | 1 | 0 |
| Brics a Morter 1 | 1 | 1 | 0 |
| Brics a Morter 2 | 1 | 1 | 0 |
| Brics a Morter 3 | 1 | 1 | 0 |
| Brics a Morter 4[4] | 1 | 1 | 0 |
| CYFANSWM | 15 | 15 | 0 |

5.3. Yn ogystal â hyn, nododd GTAA 2021 aelwyd arall a oedd yn byw mewn eiddo brics a morter a oedd, yn eu barn nhw, yn anaddas ar gyfer eu hanghenion. Mae'r Cyngor wedi cadarnhau bod yr aelwyd hon bellach wedi'i hailgartrefu mewn llety addas ac felly nid yw eu hanghenion nhw wedi'u cynnwys yn Niweddariad y GTAA.

[4] Roedd yr aelwyd hon yn byw ar safle diawdurdod yn Sir Ddinbych yn ystod GTAA 2021 ond maen nhw bellach wedi symud i eiddo brics a morter yn Wrecsam. Nid yw eu hanghenion nhw wedi’u cynnwys yn Niweddariad y GTAA.

# Opinion Research Services –Diweddariad ar Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr Cyngor Sir Ddinbych – Hydref 2023

## Log Cyfweliadau

5.4. Mae copi o’r Log Cyfweliadau ar gael yn **Atodiad C.**

## Trosolwg a Demograffeg y Preswylwyr

5.5. Mae gwybodaeth a gasglwyd ar y math o lety y mae'r bobl y cafodd eu cyfweld yn byw ynddo yn dangos bod y Sipsiwn a Theithwyr y cafodd eu cyfweld yn Sir Ddinbych yn byw ar safleoedd diawdurdod, gwersylloedd diawdurdod, neu mewn llety brics a morter.

5.6. Cafodd data ethnigrwydd ei gasglu gan bob aelwyd y cafodd eu cyfweld ar y safleoedd Sipsiwn a Theithwyr diawdurdod ac ar gyfer yr unigolion sy'n byw mewn llety brics a morter. Roedd pawb y cafodd eu cyfweld yn ystyried eu hunain yn Sipsiwn Cymreig.

5.7. Drwy’r cyfweliadau, nodwyd bod cyfanswm o 39 o drigolion yn byw ar y 2 safle Sipsiwn a Theithwyr diawdurdod, y 4 gwersyll, ac yn byw mewn llety brics a morter. Roedd hyn yn cynnwys 24 o oedolion ac 15 o blant dan 18 oed. Mae hyn yn golygu bod 62% yn oedolion a 38% yn blant a phobl ifanc yn eu harddegau. Er nad yw’n gymhariaeth uniongyrchol, mae data o Gyfrifiad 2011 ar gyfer Sir Ddinbych gyfan (y gymuned sefydlog a’r gymuned Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig) ac ar gyfer Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig wedi’i gymharu â phoblogaeth y safle. Mae hyn yn dangos cyfran uwch o unigolion dan 18 oed yn y boblogaeth Sipsiwn a Theithwyr o gymharu â phoblogaeth Sipsiwn a Theithwyr yn Sir Ddinbych yn gyffredinol. Mae hyn yn bwysig wrth ystyried cyfradd twf aelwydydd newydd y gellid ei chymhwyso i'r boblogaeth pan fydd anghenion tymor hirach yn cael eu pennu.

Ffigur 10 – Oedran a Rhywedd Aelodau'r Aelwydydd fel % o Gyfanswm y Preswylwyr y Cafodd eu Cyfweld (Awst 2023)

| Oedran a Rhywedd - Safleoedd | Canran | % |
|---|---|---|
| Gwryw | 21 | 54 |
| Benyw | 18 | 46 |
| Dan 18 | 15 | 39 |
| 18 oed a hŷn | 24 | 61 |

### Crynodeb o'r Cyfweliadau

5.8. Mae crynodeb o'r cyfweliadau a wnaethpwyd â Sipsiwn a Theithwyr sy'n byw ar safleoedd diawdurdod, gwersylloedd diawdurdod, ac sy'n byw mewn llety brics a morter ar gael yn **Atodiad D**.

# Opinion Research Services –Diweddariad ar Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr Cyngor Sir Ddinbych – Hydref 2023

## 6. Asesu Anghenion Llety

6.1. Mae’r adran hon yn canolbwyntio ar y ddarpariaeth o leiniau sydd ei hangen ar Gyngor Sir Ddinbych am gyfnod tymor byr o 5 mlynedd a chyfnod y CDLl llawn hyd at 2033. Mae hyn yn cynnwys yr angen presennol nad yw wedi’i ddiwallu a'r angen sy'n debygol o godi yn y dyfodol. Mae'r cyfnod hwn yn caniatáu ar gyfer rhagolygon cadarn ar gyfer darpariaeth yn y dyfodol, yn seiliedig ar y dystiolaeth sydd wedi’i chynnwys yn yr astudiaeth hon a hefyd o ffynonellau data eilaidd.

6.2. Mae'r adran hon yn seiliedig ar wybodaeth a gafwyd yn y cyfweliadau ag aelwydydd, cofnodion cynllunio, a gwybodaeth gan y Cyngor. Mewn llawer o achosion, ni chaiff data’r arolwg ei ddefnyddio ar ei ben ei hun, ond yn hytrach caiff ei ddefnyddio i ddilysu gwybodaeth o gofnodion cynllunio neu ffynonellau eraill.

6.3. Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar y ddarpariaeth sydd ei hangen yn yr ardal yn ogystal ag a oes angen unrhyw safleoedd tramwy a/neu ddarpariaeth mannau aros brys.

6.4. Mae Canllawiau Llywodraeth Cymru yn gofyn am asesiad o anghenion lleiniau nawr ac yn y dyfodol ac yn darparu fframwaith ar gyfer ymgymryd â’r cyfrifiad hwn. Dilynwyd y fframwaith hwn at ddiben y GTAA.

6.5. Yn yr un modd ag unrhyw asesiad o’r angen am dai, gellir rhannu’r cyfrifiad sylfaenol yn nifer gymharol fach o ffactorau. Yn yr achos hwn, y mater allweddol ar gyfer lleiniau preswyl yw cymharu’r cyflenwad sydd ar gael i’w meddiannu ag anghenion y boblogaeth yn awr ac yn y dyfodol. Mae’r ffactorau allweddol ym mhob un o’r elfennau hyn wedi’u nodi yn yr adrannau isod.

# Opinion Research Services –Diweddariad ar Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr Cyngor Sir Ddinbych – Hydref 2023

### Cyflenwad Presennol o Leiniau Preswyl

- Lleiniau'r Awdurdod Lleol wedi'u meddiannu
- Lleiniau preifat awdurdodedig wedi'u meddiannu
- Lleiniau gwag yr Awdurdod Lleol a lleiniau preifat gwag sydd ar gael
- Lleiniau a ddisgwylir iddynt fod yn wag yn y dyfodol agos
- Lleiniau newydd yr Awdurdod Lleol a lleiniau preifat â chaniatâd cynllunio

### Galw Presennol am Ddarpariaeth Breswyl

- Aelwydydd ar wersylloedd diawdurdod
- Aelwydydd ar ddatblygiadau diawdurdod
- Aelwydydd cudd/gorlawn/dwbl[5]
- Tai confensiynol – symud o lety brics a morter [6].
- Aelwydydd newydd i gyrraedd o restrau aros/mudo i fewn.

[5]Yn dilyn y canllawiau a nodir ym Mharagraffau 195-201 Canllawiau GTAA.
[6]Yn dilyn y canllawiau a nodir ym Mharagraffau 172-183 Canllawiau GTAA.

# Opinion Research Services –Diweddariad ar Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr Cyngor Sir Ddinbych – Hydref 2023

## Galw yn y Dyfodol

6.6. Mae’r galw yn y dyfodol o ganlyniad i ffurfio aelwydydd newydd yn ystod cyfnod yr astudiaeth. Mae gwybodaeth o'r cyfweliadau safleoedd yn rhoi manylion am nifer gros yr aelwydydd newydd y disgwylir iddynt ffurfio yn ystod 5 mlynedd gyntaf yr astudiaeth (er ei bod yn bwysig *netio* hyn yn erbyn cyflenwad a nodwyd yn ystod 5 mlynedd gyntaf yr astudiaeth). Mae ffurfio aelwydydd newydd ar gyfer gweddill cyfnod yr astudiaeth wedi'i seilio ar dystiolaeth ddemograffig o'r cyfweliadau safleoedd.

## Cyflenwad Awdurdodedig Presennol o Leiniau Preswyl

6.7. Er mwyn asesu’r ddarpariaeth bresennol ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr mae’n bwysig deall cyfanswm nifer y lleiniau presennol a’u statws cynllunio. Ar linell sylfaen y GTAA nid oedd unrhyw safleoedd awdurdodedig yn Sir Ddinbych.

# Opinion Research Services –Diweddariad ar Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr Cyngor Sir Ddinbych – Hydref 2023

Ffigur 11 - Nifer y safleoedd awdurdodedig yn Sir Ddinbych (Awst 2023)

| Categori | Safleoedd | Lleiniau | Wedi'u meddiannu |
|---|---|---|---|
| Safleoedd preifat â chaniatâd cynllunio parhaol | 0 | 0 | 0 |
| Safleoedd preifat â chaniatâd cynllunio dros dro | 0 | 0 | 0 |
| Safleoedd cyhoeddus (Y Cyngor a Darparwyr Cofrestredig) | 0 | 0 | 0 |
| Darpariaeth dramwy gyhoeddus | 0 | 0 | 0 |
| Darpariaeth dramwy breifat | 0 | 0 | 0 |
| Safleoedd a oddefir | 0 | 0 | 0 |
| Cyfanswm | 0 | 0 | 0 |

6.8. Cam nesaf y broses yw asesu faint o le sydd ar gael, neu faint o le fydd ar gael ar safleoedd presennol er mwyn pennu cyflenwad y lleiniau sydd ar gael. Y prif ffyrdd o ddod o hyd i hyn yw drwy:

- Lleiniau gwag presennol – Nid oes unrhyw safleoedd awdurdodedig yn Sir Ddinbych.
- Lleiniau y disgwylir iddynt fod yn wag yn fuan – Nid oes unrhyw safleoedd awdurdodedig yn Sir Ddinbych.
- Lleiniau â chaniatâd cynllunio ar hyn o bryd - Nid oes unrhyw leiniau ar safleoedd sydd â chaniatâd cynllunio nad ydynt wedi'u rhoi ar waith.

6.9. Mae hyn yn rhoi ffigur ar gyfer cyflenwad cyffredinol o ddim un llain.

Ffigur 12 - Crynodeb o’r Cyflenwad o Leiniau yn Sir Ddinbych - Awst 2023

| Categori | Lleiniau |
|---|---|
| Lleiniau gwag presennol | 0 |
| Lleiniau y disgwylir iddynt fod yn wag yn fuan | 0 |
| Symud i lety brics a morter | 0 |
| Mudo allan | 0 |
| Lleiniau heb eu rhoi ar waith â chaniatâd cynllunio | 0 |
| CYFANSWM Y CYFLENWAD | 0 |

### Galw Presennol am Ddarpariaeth Breswyl

6.10. Cam nesaf y broses yw asesu’r anghenion presennol a phennu faint o aelwydydd sy’n chwilio am leiniau yn yr ardal ar hyn o bryd.

### Safleoedd a Gwersylloedd Diawdurdod Presennol

6.11. Mae'r astudiaeth wedi nodi 2 safle diawdurdod yn Sir Ddinbych. Safle ag 1 llain (diawdurdod 1) a safle â 6 llain (diawdurdod 2). Gwnaeth yr astudiaeth hefyd nodi bod 4 aelwyd yn byw ar wersylloedd diawdurdod yn Sir Ddinbych.

# Opinion Research Services –Diweddariad ar Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr Cyngor Sir Ddinbych – Hydref 2023

Ffigur 13 - Crynodeb o Leiniau a Oddefir a Lleiniau Diawdurdod yn Sir Ddinbych (Awst 2023)

| Safle | Lleiniau |
|---|---|
| Safleoedd Diawdurdod (x2) | 7 |
| Gwersylloedd Diawdurdod (x4) | 4 |
| CYFANSWM | 11 |

**Aelwydydd Cudd a Lleiniau Gorlawn**

6.12. Ceisiodd y cyfweliadau safleoedd nodi aelwydydd cudd neu ddwbl ar safleoedd y mae angen llain arnynt ar unwaith. Mae Canllawiau Llywodraeth Cymru yn diffinio aelwydydd cudd yn rhai na allant gael eu llety awdurdodedig eu hunain ac sydd yn lle hynny'n byw mewn llety awdurdodedig (tai neu leiniau) sydd wedi'u neilltuo i aelwyd arall. Gall hyn gynnwys plant sy'n oedolion nad ydynt wedi gallu symud tŷ neu wahanol aelwydydd sy'n byw ar un llain. Nododd y cyfweliadau safleoedd 1 cartref cudd neu ddwbl, a dim un llain orlawn.

**Tai Confensiynol**

6.13. Mae nodi cartrefi brics a morter wedi bod yn broblem gyson i Asesiadau Llety Sipsiwn a Theithwyr. Nododd Cyfrifiad 2021 mai cyfanswm o 36 yn unig o aelwydydd Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig a Roma a oedd yn byw mewn llety brics a morter yn Sir Ddinbych.

6.14. Fel y nodwyd yn gynharach, gweithiodd ORS yn galed iawn i nodi Sipsiwn a Theithwyr sy'n byw mewn llety brics a morter a gwnaethon nhw weithio gyda Swyddogion y Cyngor, ac aelwydydd y cafodd eu cyfweld i nodi aelwydydd i'w cyfweld. Arweiniodd y broses hon at gyfweld â 4 aelwyd, dywedodd 2 bod angen iddynt symud i safle yn Sir Ddinbych; yr oedd 1 yn hapus yn byw mewn llety brics a morter; ac yr oedd 1 aelwyd bellach yn byw mewn llety brics a morter yn Wrecsam.

Ffigur 14 - Crynodeb o’r Angen am Lety Brics a Morter yn Sir Ddinbych - Awst 2023

| Safle | Lleiniau |
|---|---|
| Aelwydydd sy’n bodoli’n barod | 2 |
| CYFANSWM | 2 |

### Aelwydydd Newydd i Gyrraedd

6.15. Pan gynhaliwyd y GTAA nid oedd unrhyw safleoedd cyhoeddus yn Sir Ddinbych ac nid oedd rhestr aros.

6.16. Mae angen i asesiadau hefyd ystyried mudo i fewn (aelwydydd y mae angen llety arnynt ac sy'n bwriadu symud i ardal yr astudiaeth o'r tu allan) a mudo allan (aelwydydd sy'n bwriadu symud o ardal yr astudiaeth). Niferoedd bach yn unig o gartrefi unigolion sy’n mudo i fewn ac sy’n mudo allan y mae arolygon safleoedd fel arfer yn eu nodi ac nid yw'r data fel arfer yn ddigon cadarn i allosod tueddiadau hirdymor. Ar lefel genedlaethol, nid oes mudo net o gwbl o ran Sipsiwn a Theithwyr ledled y DU, ond mae’r asesiad hwn wedi ystyried effeithiau mudo lleol ar sail y dystiolaeth leol orau sydd ar gael.

6.17. Mae tystiolaeth a gafwyd o gyfweliadau ag aelwydydd yn Sir Ddinbych, a thrafodaethau â’r Cyngor wedi'u hystyried yn ofalus ac nid yw wedi nodi unrhyw dystiolaeth o fudo i mewn.

### Darparu Lleiniau Ychwanegol: Anghenion yn y Dyfodol

6.18. Cam nesaf y broses yw asesu anghenion yn y dyfodol a phennu faint o aelwydydd sy’n debygol o fod yn chwilio am leiniau yn yr ardal yn y dyfodol yn ystod 5 mlynedd gyntaf yr asesiad, ac am gyfnod hirach y CDLl hyd at 2033.

# Opinion Research Services –Diweddariad ar Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr Cyngor Sir Ddinbych – Hydref 2023

## Poblogaeth a Thwf Aelwydydd

6.19. Yn genedlaethol, mae cyfradd ffurfio a thwf aelwydydd o 3.00% net y flwyddyn wedi'i fabwysiadu ac yn cael ei defnyddio'n eang mewn Asesiadau Llety Sipsiwn a Theithwyr, er nad oes tystiolaeth ystadegol bod aelwydydd yn tyfu mor gyflym â hyn. Canlyniad hyn fu cynyddu gofynion cenedlaethol a lleol ar gyfer lleiniau ychwanegol yn afrealistig. Yn y cyd-destun hwn mae ORS wedi paratoi Nodyn Technegol ar Gyfraddau Ffurfio Aelwydydd y cafodd ei ddiweddaru ym mis Mehefin 2020. Mae'r prif gasgliadau wedi'u nodi yma a gellir gweld y Nodyn Technegol llawn yn **Atodiad G.**

6.20. Mae'r rhai sy'n ceisio darparu tystiolaeth o gyfraddau twf aelwydydd net blynyddol uchel ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr weithiau wedi ceisio dibynnu ar gynnydd yn nifer y carafanau, fel y gwelir yn y Cyfrifiadau Carafanau. Fodd bynnag mae data Cyfrifiadau Carafanau yn annibynadwy ac yn anghyson – felly yr unig ffordd briodol o ragamcanu twf poblogaeth ac aelwydydd yn y dyfodol yw drwy ddadansoddiad demograffig manwl.

6.21. Mae'r ymchwil a wnaeth ORS wedi nodi y gall y twf cenedlaethol yn y boblogaeth Sipsiwn a Theithwyr fod mor isel â 1.50% y flwyddyn – mae hyn yn llawer llai na'r 3.00% y flwyddyn a dybir yn aml, ond mae'n dal i fod yn fwy na'r hyn yn y gymuned sefydlog. Hyd yn oed gan ddefnyddio tybiaethau eithafol ac afrealistig, mae'n anodd dod o hyd i dystiolaeth bod cyfraddau twf poblogaeth ac aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr dros 2.00% y flwyddyn yn genedlaethol.

6.22. Mae'r gyfradd twf aelwydydd net o 3.00% y flwyddyn a dybir yn aml yn afrealistig a byddai angen tystiolaeth ystadegol glir cyn ei defnyddio at ddibenion cynllunio. Felly, mae'r dystiolaeth orau sydd ar gael yn ategu cyfradd twf aelwydydd net cenedlaethol ORS o 1.50% y flwyddyn ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr.

6.23. Caiff 2 ddull o fesur twf aelwydydd eu defnyddio er mwyn asesu anghenion yn yr astudiaeth hon. Mae tystiolaeth o aelwydydd yn ffurfio (twf teuluoedd) o Adran D yr Arolwg Aelwydydd, wedi'i netio yn erbyn tystiolaeth trosiant lleiniau am flwyddyn a lleiniau y disgwylir iddynt fod yn wag yn fuan, wedi'i defnyddio am y 5 mlynedd gyntaf. Mae ffurfio aelwydydd newydd ar gyfer y blynyddoedd sy'n weddill o'r astudiaeth wedi'i seilio ar dystiolaeth ddemograffig o'r cyfweliadau safleoedd.

6.24. Nododd y cyfweliadau safleoedd a brics a morter 2 aelwyd newydd o ganlyniad i dwf teuluoedd ymhlith pobl ifanc yn eu harddegau dros 5 mlynedd gyntaf yr asesiad, ac ni nodwyd trosiant lleiniau blynyddol gan nad oes unrhyw safleoedd cyhoeddus.

6.25. Mae aelwydydd yn ffurfio ar gyfer gweddill cyfnod y GTAA hyd at 2033 wedi bod yn seiliedig ar ddemograffeg gyffredinol y boblogaeth. Mae Canllawiau GTAA yn argymell y dylid ystyried cyflwyno cyfradd twf cyfansawdd net.

6.26. Fodd bynnag, mewn rhai amgylchiadau pan fo nifer yr aelwydydd a nifer y plant yn isel, neu phan fo strwythur oedran y boblogaeth wedi'i ogwyddo gan grwpiau oedran penodol, nid yw'n briodol defnyddio cyfradd ganrannol ar gyfer aelwydydd newydd sy'n ffurfio. Yn yr achosion hyn, gwneir dyfarniad ar y tebygolrwydd o aelwydydd newydd yn ffurfio yn seiliedig ar oedran a rhywedd y plant. Mae hyn yn seiliedig ar y dybiaeth y bydd 50% o'r aelwydydd sy'n debygol o ffurfio yn aros yn yr ardal. Mae hyn yn seiliedig ar dystiolaeth o Asesiadau Llety Sipsiwn a Theithwyr eraill y mae ORS wedi'u cwblhau ledled Cymru a Lloegr. Defnyddiwyd y dull hwn i bennu lefelau ffurfio aelwydydd newydd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr yn Sir Ddinbych am y cyfnod ehangach hyd at 2033 o ystyried nifer isel y plant iau a nodwyd yn y cyfweliadau ag aelwydydd. Y canlyniad yw y nodwyd bod angen 2 lain yn y dyfodol rhwng 2028/29–2033. Fodd bynnag, dylid nodi y gall y ffigur hwn newid dros amser.

# Opinion Research Services –Diweddariad ar Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr Cyngor Sir Ddinbych – Hydref 2023

### Anghenion Cyffredinol Sipsiwn a Theithwyr yn Sir Ddinbych

6.27. Mae Canllawiau Llywodraeth Cymru yn gofyn am 2 asesiad o angen – ar gyfer 5 mlynedd gyntaf cyfnod yr astudiaeth, ac ar gyfer cyfnod llawn y Cynllun Datblygu Lleol.

6.28. Yn dilyn y dull hwn, amcangyfrifir mai'r ddarpariaeth gyffredinol sydd ei hangen yn Sir Ddinbych am y 5 mlynedd gyntaf yw **16 o leiniau.**

6.29. . Amcangyfrifir mai'r ddarpariaeth gyffredinol sydd ei hangen hyd at 2033 yw **18 o leiniau.**

Ffigur 15 – Lleiniau sydd eu hangen yn Sir Ddinbych rhwng 2023-2033

| Cyflenwad Presennol o Leiniau Preswyl | Nifer y Lleiniau | Nodiadau |
|---|---|---|
| A. Lleiniau'r Awdurdod Lleol wedi'u Meddiannu | 0 | Dim safleoedd cyhoeddus |
| B. Lleiniau preifat awdurdodedig wedi'u meddiannu/lleiniau a oddefir | 0 | Dim safleoedd awdurdodedig |
| Cyfanswm | 0 | |

# Opinion Research Services –Diweddariad ar Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr Cyngor Sir Ddinbych – Hydref 2023

| Cyflenwad arfaethedig o leiniau preswyl | Nifer y Lleiniau | Nodiadau |
|---|---|---|
| C. Lleiniau gwag yr Awdurdod Lleol a lleiniau gwag sydd ar gael | 0 | Dim safleoedd cyhoeddus |
| D. Lleiniau a ddisgwylir iddynt fod yn wag yn y dyfodol agos | 0 | Dim safleoedd cyhoeddus |
| E. Lleiniau newydd yr Awdurdod Lleol a lleiniau preifat â chaniatâd cynllunio | 0 | Dim lleiniau heb eu gweithredu |
| Cyfanswm | 0 | |

# Opinion Research Services –Diweddariad ar Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr Cyngor Sir Ddinbych – Hydref 2023

| Galw Presennol am Ddarpariaeth Breswyl | Galw am Leiniau | Nodiadau |
|---|---|---|
| F. Gwersylloedd Diawdurdod | 4 | 4 gwersyll |
| G. Datblygiadau diawdurdod | 7 | 7 llain ddiawdurdod |
| H. Lleiniau gorlawn/llety anaddas | 1 | 1 aelwyd ddwbl |
| I. Tai confensiynol | 2 | 2 aelwyd mewn llety bris a morter |
| J. Aelwydydd newydd i gyrraedd | 0 | Dim mudo i fewn |
| Cyfanswm | 14 | |

| Aelwydydd Cyfredol | Aelwydydd yn y Dyfodol (ym mlwyddyn 5) | Aelwydydd yn y Dyfodol (blwyddyn 6 i 12) |
|---|---|---|
| K. 14 o aelwydydd | 16 | 18 |
| L. Yr angen am leiniau aelwydydd ychwanegol | 2 | 2 |

## Opinion Research Services –Diweddariad ar Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr Cyngor Sir Ddinbych – Hydref 2023

| Angen heb ei ddiwallu | Angen yn codi | Angen wedi'i ddiwallu |
|---|---|---|
| M. Galw presennol am ddarpariaeth breswyl | 14 | |
| N. Galw am leiniau preswyl yn y dyfodol (blwyddyn 5) | 2 | |
| O. Galw am leiniau preswyl yn y dyfodol (blwyddyn 6 i 10) | 2 | |
| P. Cyflenwad arfaethedig o leiniau preswyl | | 0 |
| Q. Angen heb ei ddiwallu (5 mlynedd) | 16 | |
| R. Angen heb ei ddiwallu (hyd at ddiwedd cyfnod CDLl Sir Ddinbych hyd at 2033) | 18 | |

# Opinion Research Services –Diweddariad ar Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr Cyngor Sir Ddinbych – Hydref 2023

### Darpariaeth Safle Tramwy/Safle Aros Brys

6.30. Mae gan safleoedd tramwy swyddogaeth benodol o fodloni anghenion aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr sy'n ymweld ag ardal neu sy'n mynd drwyddynt. Fel arfer mae safleoedd tramwy yn cyfyngu ar ba mor hir y ceir aros sef am oddeutu 13 wythnos ac mae ganddynt amrywiaeth o gyfleusterau fel cyflenwad dŵr, trydan, a blociau amwynder. Dewis arall yn lle safle tramwy yw man aros dros dro. Mae'r math hwn o safle hefyd yn cyfyngu ar ba mor hir y gall Teithiwr aros yno ond mae ganddo hefyd lawer llai o gyfleusterau, sef, fel arfer, ffynhonnell ddŵr a thoiledau cemegol.

# Opinion Research Services –Diweddariad ar Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr Cyngor Sir Ddinbych – Hydref 2023

6.31. Mae Deddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994 yn arbennig o bwysig o ran darparu safleoedd tramwy Sipsiwn a Theithwyr. Mae Adran 62A y Ddeddf yn caniatáu i'r Heddlu gyfarwyddo tresmaswyr i symud eu hunain, eu cerbydau, a'u heiddo o unrhyw dir lle mae llain addas ar faes carafanau perthnasol ar gael yn ardal yr un Awdurdod Lleol. Mae llain addas ar faes carafanau perthnasol yn un sydd wedi'i leoli yn ardal yr un Awdurdod Lleol â'r tir y digwyddodd y tresmasu arno, ac sy'n cael ei reoli gan Awdurdod Lleol, Darparwr Cofrestredig neu unigolyn neu gorff arall fel y nodir yn y gorchymyn gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Mae'r gyfraith achos wedi cadarnhau bod yn rhaid i lain addas fod yn rhywle y gall yr aelwyd feddiannu ei charafán. Nid yw tai brics a morter yn ddewis arall addas yn lle llain. [7] Felly, mae safle tramwy yn cynnig lle i aelwydydd sy'n symud i ardal arall ac mae hefyd yn ffordd o sefydlu mwy o gamau gorfodi yn erbyn gwersylloedd diawdurdod amhriodol.

---

[7] https://www.travellerstimes.org.uk/features/lawyers-opinion-police-powers-and-unauthorised-camps-travellers-motor-vehicles-and

6.32. Bydd yn rhaid ystyried Deddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd hefyd a ddaeth i rym ym mis Mehefin 2022. Mae Rhan 4 y Ddeddf yn rhoi pwerau ychwanegol i'r Heddlu ymdrin â gwersylloedd diawdurdod drwy droseddau newydd yn ymwneud â phreswylio ar dir heb ganiatâd mewn cerbyd neu gyda cherbyd a phwerau newydd yn gysylltiedig â mynd ag eiddo oddi ar rywun.

6.33. Er mwyn nodi a oes angen i'r Cyngor ddarparu llety tramwy, mae dadansoddiad wedi'i wneud o ddata'r Cyfrifiad Carafanau, data gwersylla a gofnodwyd y cafodd ei gyflwyno gan y Cyngor, a chanlyniadau'r cyfweliadau ag aelwydydd.

6.34. Cadarnhaodd trafodaethau â budd-ddeiliaid lleol yn ystod GTAA 2021, a dadansoddiad o gofnodion gwersylloedd diawdurdod, fod rhai enghreifftiau o wersylloedd diawdurdod yn Sir Ddinbych, ac mai Teithwyr yw'r rhain fel arfer sy'n teithio drwodd at ddibenion gwaith gan fod yr ardal ar brif goridor teithio'r A55 ar draws Gogledd Cymru ar gyfer Teithwyr sy'n dod o Iwerddon ac yn mynd i Iwerddon ar y fferi o Gaergybi. Bu cofnodion hefyd o wersylloedd yng nghanol a de'r sir. Mae tystiolaeth hefyd o gofnodion am ymweliadau rheolaidd o'r un aelwydydd ar adegau tebyg o'r flwyddyn.

6.35. Bu achosion lleol eraill o Deithwyr yn ymweld â Sir Ddinbych dros dro i fynd i briodasau neu ddigwyddiadau eraill, ond ni nodwyd unrhyw dystiolaeth arall o unrhyw anghenion llety hirdymor neu barhaol.

6.36. Mae dadansoddiad manwl o gofnodion gwersylloedd diawdurdod yn Sir Ddinbych rhwng 2014 a 2023 ar gael yn y tabl isod. Mae'r rhain yn cynnwys achosion lleol o Deithwyr sy'n ymweld â Sir Ddinbych dros dro i fynd i briodasau neu ddigwyddiadau eraill, ond ni nodwyd unrhyw dystiolaeth arall o unrhyw anghenion llety hirdymor neu barhaol.

# Opinion Research Services –Diweddariad ar Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr Cyngor Sir Ddinbych – Hydref 2023

6.37. Nid oedd canlyniadau'r cyfweliadau ag aelwydydd a thrafodaethau â budd-ddeiliaid yn nodi bod angen darpariaeth dramwy barhaol yn lleol, er, cafwyd trafodaethau ynghylch yr angen am ragor o ddarpariaeth dramwy ledled Cymru.

Gwersylloedd a Gofnodwyd yn Sir Ddinbych rhwng 2014-2023 (hyd at fis Hydref)

| Blwyddyn | Gwersylloedd a Gofnodwyd | Nifer y Lleoliadau |
|---|---|---|
| 2014 | 9 | 8 |
| 2015 | 6 | 6 |
| 2016 | 15 | 13 |
| 2017 | 17 | 17 |
| 2018 | 15 | 15 |
| 2019 | 7 | 7 |
| 2020 | 4 | 4 |
| 2021 | 12 | 11 |
| 2022 | 13 | 12 |
| 2023 (hyd at fis Hydref) | 5 | 5 |

# Opinion Research Services –Diweddariad ar Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr Cyngor Sir Ddinbych – Hydref 2023

### Argymhellion Tramwy

6.38. Nid oedd canlyniadau'r cyfweliadau ag aelwydydd a thrafodaethau â budd-ddeiliaid yn nodi bod angen darpariaeth dramwy barhaol yn lleol, er, cafwyd trafodaethau ynghylch yr angen am ragor o ddarpariaeth dramwy ledled Cymru.

6.39. Mae'r Cyngor yn cyflogi Swyddog Cyswllt Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn ogystal â ffurfioli proses fwy cydlynol ar gyfer rheoli gwersylloedd diawdurdod. Deallir bod hyn er mwyn sicrhau ymgysylltiad cynnar â theuluoedd sy'n teithio drwy Sir Ddinbych, ac i ddarparu dull cydlynol i sicrhau bod gwiriadau lles a chyfleusterau fel biniau a thoiledau yn cael eu darparu. Arweiniodd hyn at ymgysylltu â chyfanswm o 5 aelwyd a oedd yn byw ar wersylloedd yn ystod cyfnod gwaith maes y GTAA ac ni wnaeth neb fynegi angen penodol am ddarpariaeth dramwy ffurfiol. Bwriad y swydd hon hefyd yw meithrin gwell cysylltiadau rhwng y Cyngor a'r Teithwyr. Ar ôl trafod â'r Cyngor, daethpwyd i'r casgliad y gellid datblygu'r dull hwn ymhellach i fod yn sail i ddull mwy cynhwysfawr a reolir, yn cynnwys ystyried dewisiadau fel trafodaethau aros.

6.40. Er bod y GTAA blaenorol wedi nodi angen am leiniau tramwy yn Sir Ddinbych, mae tystiolaeth fwy diweddar yn awgrymu nad oes angen y rhain bellach ac y dylid ystyried dewisiadau eraill. Felly, argymhellir **nad oes angen i'r Cyngor ddarparu safle tramwy ar hyn o bryd** yn Sir Ddinbych o ganlyniad i nifer isel y gwersylloedd diawdurdod a natur tymor byr y gwersylloedd hyn.

6.41. Argymhellir hefyd bod y Cyngor yn parhau i fonitro nifer y gwersylloedd diawdurdod a'u bod nhw'n ystyried goddefgarwch tymor byr (yn cynnwys trefniadau trafodaethau aros) i ymdrin ag arosiadau tramwy tymor byr. Dylai'r dull rheoli hwn hefyd ystyried a ddylid darparu toiledau, dŵr a chyfleusterau sbwriel. Mae nifer o enghreifftiau ledled Cymru a Lloegr pan fo dulliau yn seiliedig ar reoli o ran ymdrin â gwersylloedd diawdurdod wedi bod yn llwyddiannus. Mae enghraifft dda ar gael yn www.negotiatedstopping.co.uk. Ceir llawer o enghreifftiau hefyd pan fo awdurdodau lleol yn mabwysiadu ymagwedd fwy strategol a rhanbarthol o ran mynd i'r afael â materion tramwy gan gynnwys yn Essex, Swydd Gaerlŷr, Swydd Northampton gynt, a Hampshire.

### Yr Angen am Leiniau Siewmyn Teithiol

6.42. O ystyried y ffaith nad oedd unrhyw Siewmyn Teithiol yn byw yn Sir Ddinbych, nid oes asesiad o angen wedi'i gynnal. Fodd bynnag, dylai'r Cyngor fonitro unrhyw ddulliau ar gyfer caniatâd cynllunio yn y dyfodol gan Siewmyn Teithiol a bod â pholisïau CDLl yn Seiliedig ar Feini Prawf priodol ar waith i ymdrin ag unrhyw geisiadau yn y dyfodol.

# Opinion Research Services –Diweddariad ar Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr Cyngor Sir Ddinbych – Hydref 2023

## 7. Casgliadau

### Yr Angen am Leiniau ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr

7.1. Yn seiliedig ar y dystiolaeth a gyflwynwyd yn yr astudiaeth hon, amcangyfrifir bod angen **16 o leiniau** ychwanegol hyd at 2027/28 ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr yn Sir Ddinbych am 5 mlynedd gyntaf cyfnod yr astudiaeth (2023/24-2028/29), a bod angen **2 lain** arall erbyn 2033, ddiwedd cyfnod y CDLl Newydd. Mae hyn yn golygu bod angen cyfanswm o **18 o leiniau** ar gyfer y cyfnod cyfan ledled Sir Ddinbych.

### Yr Angen am Leiniau ar gyfer Siewmyn Teithiol

7.2. O ystyried y ffaith y nodwyd nad oes unrhyw Siewmyn Teithiol yn byw yn Sir Ddinbych, nid oes asesiad o angen wedi'i gynnal. Fodd bynnag, dylai'r Cyngor fonitro unrhyw ddulliau ar gyfer caniatâd cynllunio yn y dyfodol gan Siewmyn Teithiol a sicrhau bod polisïau CDLl yn Seiliedig ar feini prawf priodol ar waith i ymdrin ag unrhyw geisiadau yn y dyfodol.

### Safleoedd Tramwy

7.3. Er bod y GTAA blaenorol wedi nodi bod angen lleiniau tramwy yn Sir Ddinbych, mae tystiolaeth fwy diweddar yn awgrymu nad oes angen y rhain bellach ac y dylid ystyried dewisiadau eraill. Felly, argymhellir **nad oes angen i'r Cyngor ddarparu safle tramwy ar hyn o bryd** yn Sir Ddinbych o ganlyniad i nifer isel y gwersylloedd diawdurdod a natur tymor byr y gwersylloedd hyn.

# Opinion Research Services –Diweddariad ar Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr Cyngor Sir Ddinbych – Hydref 2023

## Mynd i'r Afael ag Anghenion a Nodwyd

7.4. Yn gyffredinol, dylai angen sy'n cael ei nodi mewn GTAA gael ei ystyried yn angen am leiniau. Mae Canllawiau Llywodraeth Cymru ar Ddylunio Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr (2015) yn argymell y dylai llain allu darparu ar gyfer bloc amwynder, cartref symudol, carafán deithiol, a lle parcio ar gyfer dau gerbyd. Fodd bynnag, mae'r canllawiau hyn yn ymwneud â safleoedd cyhoeddus sy'n cael eu darparu gan Awdurdodau Lleol yn unig ac nid oes unrhyw safleoedd cyhoeddus yn Sir Ddinbych ar hyn o bryd.

7.5. O ystyried bod yr angen a nodwyd yn Sir Ddinbych o aelwydydd sy'n byw ar safleoedd diawdurdod, o wersylloedd diawdurdod, neu o aelwydydd sy'n byw mewn llety brics a morter sydd wedi nodi eu bod nhw naill ai'n awyddus i ddiwallu eu hanghenion eu hunain, neu'n awyddus i gael darpariaeth safleoedd cyhoeddus newydd, argymhellir bod y Cyngor yn ceisio cefnogi'r aelwydydd hyn i ddiwallu eu hanghenion.

7.6. Cydnabyddir bod y Cyngor yn y broses o adolygu eu CDLl mabwysiedig sy'n nodi sut yr eir i'r afael â'r angen cyffredinol am dai. Mae CDLl Newydd Sir Ddinbych yn ymdrin â'r cyfnod 2018 - 2033. Dylid ystyried canfyddiadau'r adroddiad hwn yn rhan o'r cymysgedd a'r math o dai yn y dyfodol yng nghyd-destun yr asesiad o'r angen cyffredinol am dai yn gysylltiedig â Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn Teithiol.

# Opinion Research Services –Diweddariad ar Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr Cyngor Sir Ddinbych – Hydref 2023

## Atodiad A: Diffiniad o Dermau Allweddol

**Aelwyd gudd neu ‘ddwbl’**

Mae hyn yn cyfeirio at aelwydydd na allant gael eu llety awdurdodedig eu hunain ac sydd yn lle hynny’n byw mewn llety awdurdodedig (tai neu leiniau) sydd wedi’u neilltuo i aelwyd arall.

Gall hyn gynnwys plant sy’n oedolion nad ydynt wedi gallu symud tŷ neu wahanol aelwydydd sy’n byw ar un llain.

**Galw presennol am ddarpariaeth breswyl**

Y rhai hynny y mae angen lleiniau awdurdodedig arnynt am amrywiaeth o resymau, gan gynnwys:

Methu â sicrhau llain awdurdodedig sy'n arwain at ddefnyddio gwersylloedd diawdurdod.

Methu â sicrhau caniatâd cynllunio cywir ar gyfer datblygiad diawdurdod.

Aelwydydd sy’n byw mewn amodau gorlawn ac sydd eisiau llain.

Aelwydydd mewn tai confensiynol sy’n dangos gwrthwynebiad diwylliannol.

Aelwydydd newydd y disgwylir iddynt gyrraedd o fannau eraill.

**Cyflenwad Presennol o Leiniau Preswyl**

Nifer y lleiniau awdurdodedig sydd ar gael ac sy’n cael eu meddiannu yn yr Awdurdod Lleol neu ardal y bartneriaeth. Mae hyn yn cynnwys lleiniau ar safleoedd yr Awdurdod Lleol neu safleoedd preifat.

# Opinion Research Services –Diweddariad ar Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr Cyngor Sir Ddinbych – Hydref 2023

**Galw am leiniau preswyl yn y dyfodol**

Nifer yr aelwydydd newydd y disgwylir iddynt ffurfio a fydd yn creu galw ychwanegol o fewn cyfnod 5 mlynedd yr asesiad llety a chyfnod hirach y CDLl.

# Opinion Research Services –Diweddariad ar Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr Cyngor Sir Ddinbych – Hydref 2023

**Sipsiwn a Theithwyr**

(a) Unigolion sy’n arfer ffordd nomadig o fyw, beth bynnag fo’u hil neu eu tarddiad, gan gynnwys:

(1) unigolion sydd, ar sail eu hanghenion addysg, eu hanghenion iechyd neu eu henaint eu hunain, neu anghenion addysg, anghenion iechyd neu henaint eu teulu neu ddibynnydd, ac ar y sail honno yn unig, wedi rhoi’r gorau i deithio dros dro neu yn barhaol, ac

(2) aelodau o grŵp wedi’i drefnu o siewmyn teithiol neu bobl syrcas (boed yn teithio gyda’i gilydd ai peidio); ac

(c) unrhyw unigolion eraill sydd â thraddodiad diwylliannol o nomadiaeth neu o fyw mewn cartref symudol.

Ffynhonnell: Adran 108, Deddf Tai (Cymru) 2014

**Aelwyd**

Yn y canllawiau hyn mae’n golygu unigolion o’r un teulu sy’n byw gyda’i gilydd ar un llain / mewn un tŷ / gwersyll.

**Twf aelwydydd**

Y diffiniad o dwf mewn aelwydydd yn y canllawiau hyn yw nifer yr aelwydydd newydd sy’n deillio o aelwydydd sydd eisoes mewn llety yn yr ardal.

# Opinion Research Services –Diweddariad ar Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr Cyngor Sir Ddinbych – Hydref 2023

**Yr angen cyffredinol am leiniau preswyl**

Y cyfrifiad terfynol o anghenion llety nad ydynt wedi'u diwallu sydd i'w bennu drwy broses yr asesiad o anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr.  Gellir canfod y ffigur hwn drwy ychwanegu'r angen preswyl uniongyrchol at y galw am leiniau preswyl yn y dyfodol. Bydd yr angen cyffredinol am leiniau preswyl yn cynnwys yr anghenion dros y cyfnod 5 mlynedd y mae'r asesiad llety'n cael ei ystyried yn ddibynadwy.

**Cyflenwad arfaethedig o leiniau preswyl**

Nifer y lleiniau awdurdodedig sy'n wag ac ar gael i'w rhentu ar safleoedd Awdurdod Lleol neu safleoedd preifat. Mae hefyd yn cynnwys lleiniau a fydd yn wag yn y dyfodol agos wrth i aelwydydd symud i dai confensiynol neu o ganlyniad i amgylchiadau eraill. Dylai lleiniau ychwanegol y disgwylir iddynt agor neu safleoedd preifat sy'n debygol o gael caniatâd cynllunio yn fuan gael eu cynnwys yn y cyflenwad arfaethedig o leiniau preswyl.

**Llain breswyl**

Tir ar safle cartrefi symudol lle mae gan feddianwyr hawl i osod eu cartrefi symudol am gyfnod amhenodol (oni bai fod eu cytundeb llain yn nodi fel arall). Fel arfer bydd yn cynnwys bloc amwynderau, lle ar gyfer carafân sefydlog a charafân deithiol a lle parcio.

**Safle preswyl**

Gall safle preswyl parhaol fod dan berchenogaeth breifat neu berchenogaeth Awdurdod Lleol. Bydd y safle yn cael ei ddynodi i'w ddefnyddio fel safle Sipsiwn a Theithwyr am gyfnod amhenodol. Gall preswylwyr y safleoedd hyn ddisgwyl meddiannu eu lleiniau cyhyd ag y byddant yn cadw at delerau eu cytundebau llain, dan Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013.

Gellir darparu lle gweithio hefyd ar neu ger safleoedd ar gyfer cynnal gweithgareddau gan aelodau'r gymuned.

# Opinion Research Services –Diweddariad ar Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr Cyngor Sir Ddinbych – Hydref 2023

**Safle preswyl dros dro**

Mae'r safleoedd hyn yn safleoedd preswyl y rhoddwyd caniatâd cynllunio neu drwydded safle ar eu cyfer am gyfnod penodol.  Gall preswylwyr y safleoedd hyn ddisgwyl meddiannu eu lleiniau dros gyfnod y caniatâd cynllunio neu drwydded safle (neu cyhyd ag y byddan nhw'n cadw at delerau eu cytundebau llain, dan Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 – pa bynnag gyfnod sydd fyrraf).

**Mannau Aros Dros Dro**

Gelwir y rhain yn 'fannau aros', 'Atchin Tan', neu 'lonydd gwyrdd', ymysg enwau eraill. Bwriedir i'r rhain gael eu defnyddio fel rhai tymor byr i helpu Awdurdodau Lleol pan dderbynnir bod angen lleiniau ond nad oes rhai ar gael ar y pryd. Gellir defnyddio mannau aros dros dro a nodir mewn modd rhagweithiol er mwyn symud gwersylloedd sydd wedi'u gosod mewn mannau amhriodol, tra bo safleoedd eraill yn cael eu pennu.

Mae'n rhaid i fannau aros dros dro ddarparu cyfleusterau gwaredu gwastraff, cyflenwad dŵr a glanweithdra.

**Llain dramwy**

Tir ar safle cartrefi symudol lle mae gan feddianwyr hawl i osod eu cartrefi symudol am 3 mis ar y mwyaf.

Gellir cael lleiniau tramwy ar safleoedd preswyl parhaol, ond nid yw hyn yn cael ei argymell.

## Opinion Research Services –Diweddariad ar Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr Cyngor Sir Ddinbych – Hydref 2023

**Safleoedd Tramwy**

Mae safleoedd tramwy yn gyfleusterau parhaol wedi'u dylunio i feddianwyr eu defnyddio dros dro. Mae'n rhaid dynodi'r safleoedd hyn ac mae'n rhaid iddynt gynnig ffordd i Sipsiwn a Theithwyr gynnal ffordd nomadig o fyw. Caniateir i feddianwyr unigol breswylio ar y safle am 3 mis ar y tro ar y mwyaf.

Mae telerau penodol dan Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 yn berthnasol i'r safleoedd hyn. Gellir darparu lle gweithio hefyd ar neu ger safleoedd ar gyfer cynnal gweithgareddau gan aelodau'r gymuned.

**Datblygiadau diawdurdod**

Tir wedi'i feddiannu gan y perchennog heb y caniatâd cynllunio sydd ei angen i ddefnyddio'r tir.

**Gwersylloedd diawdurdod**

Tir wedi'i feddiannu heb ganiatâd y perchennog neu heb gael caniatâd cynllunio cywir i ddefnyddio'r tir.  Gall yr Awdurdod Lleol oddef gwersylloedd tra bod safleoedd eraill yn cael eu datblygu.

# Opinion Research Services –Diweddariad ar Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr Cyngor Sir Ddinbych – Hydref 2023

## Atodiad B: Safleoedd ac Iardiau yn Sir Ddinbych (Awst 2023)

| Safle/Iard | Gweithredol Lleiniau | Lleiniau Diawdurdod |
|---|---|---|
| Safleoedd Cyhoeddus | | |
| Dim | 0 | 0 |
| Safleoedd Preifat â Chaniatâd Parhaol | | |
| Dim | 0 | 0 |
| Safleoedd Preifat â Chaniatâd Dros Dro | | |
| Dim | 0 | 0 |
| Safleoedd a Oddefir | | |
| Dim | 0 | 0 |
| Safleoedd Diawdurdod | | |
| Diawdurdod 1 | 0 | 1 |
| Diawdurdod 2 | 0 | 6 |
| **Cyfanswm y lleiniau** | **0** | **7** |

## Opinion Research Services –Diweddariad ar Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr Cyngor Sir Ddinbych – Hydref 2023

| Site / Yard | Operational Pitches/Plots | Unauthorised Pitches/Plots |
|---|---|---|
| Safleoedd Tramwy Cyhoeddus | | |
| Dim | 0 | 0 |
| Safleoedd Tramwy Preifat | | |
| Dim | 0 | 0 |
| Iardiau Siewmyn Teithiol Preifat | | |
| Dim | 0 | 0 |
| Iardiau Siewmyn Teithiol a Oddefir | | |
| Dim | 0 | 0 |
| Iardiau Siewmyn Teithiol Diawdurdod | | |
| Dim | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **0** | **0** |

# Opinion Research Services –Diweddariad ar Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr Cyngor Sir Ddinbych – Hydref 2023

## Atodiad C: Log Cyfweliadau

| Cyfeiriad | Math o ddeiliadaeth | Ymdrechion i ymgysylltu | Technegau ymgysylltu | Wedi'i gwblhau neu wedi'i wrthod? | Rheswm dros wrthod |
|---|---|---|---|---|---|
| Diawdurdod 1 | Safle diawdurdod | 04/07/2023 | Ffôn | Wedi'i gwblhau | Amherthnasol |
| Diawdurdod 2 | Safle diawdurdod | 04/07/2023, 16/08/2023 | Ffôn, neges destun | Ni chwblhawyd cyfweliad llawn yn 2023 ond cadarnhaodd y perchennog nad oedd unrhyw newidiadau i ddata/canfyddiadau 2021 ar gyfer 6 aelwyd ar y safle a chytunwyd y gellid defnyddio'r rhain. | Amherthnasol |
| Diawdurdod 3 | Gwersyll diawdurdod | 22/06/2023 | Ffôn | Wedi'i gwblhau | Amherthnasol |
| Diawdurdod 4 | Gwersyll diawdurdod | 22/06/2023 | Ffôn | Wedi'i gwblhau | Amherthnasol |
| Diawdurdod 5 | Gwersyll diawdurdod | 22/06/2023 | Ffôn | Wedi'i gwblhau | Amherthnasol |
| Diawdurdod 6 | Gwersyll diawdurdod | 22/06/2023 | Ffôn | Wedi'i gwblhau | Amherthnasol |
| Brics a Morter 1 | Brics a Morter | 22/06/2023 | Ffôn | Wedi'i gwblhau | Amherthnasol |
| Brics a Morter 2 | Brics a Morter | 22/06/2023 | Ffôn | Wedi'i gwblhau | Amherthnasol |

## Opinion Research Services –Diweddariad ar Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr Cyngor Sir Ddinbych – Hydref 2023

| Cyfeiriad | Math o ddeiliadaeth | Ymdrechion i ymgysylltu | Technegau ymgysylltu | Wedi'i gwblhau neu wedi'i wrthod? | Rheswm dros wrthod |
|---|---|---|---|---|---|
| Brics a Morter 3 | Brics a Morter | 04/07/2023, 16/08/2023 | Ffôn, neges destun | Ni chwblhawyd cyfweliad llawn yn 2023 ond cadarnhaodd y perchennog nad oedd unrhyw newidiadau i ddata/canfyddiadau 2021 a chytunwyd y gellid defnyddio'r rhain. | Amherthnasol |
| Brics a Morter 4 | Brics a Morter | 07/07/2023 | Ffôn | Wedi'i gwblhau | Amherthnasol |

# Opinion Research Services –Diweddariad ar Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr Cyngor Sir Ddinbych – Hydref 2023

## Atodiad D: Crynodeb o'r Cyfweliadau ag Aelwydydd

Ni ellir datgelu'r wybodaeth hon / mae wedi'i golygu.

**Rhesymau wedi'u cyfyngu**

Yn rhinwedd Paragraff(au) 13 Rhan 4, Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**Eglurhad o'r Rhesymau**

By Virtue of Paragraph 13

Gwybodaeth sy'n debygol o ddatgelu hunaniaeth unigolyn.

Cymhwyster:

Prawf Er Budd y Cyhoedd: Gwybodaeth sydd –

(a) yn dod o fewn unrhyw baragraff 12 i 15, 17 a 18 ac i fyny; ac

(b) nad yw wedi ei hatal rhag bod yn eithriedig oherwydd y 'canllawiau' uchod,

yn wybodaeth eithriedig os, a chyhyd, â bod, yn holl amgylchiadau'r achos, bod budd y cyhoedd i gadw'r wybodaeth eithriedig yn gorbwyso budd y cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth

# Opinion Research Services –Diweddariad ar Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr Cyngor Sir Ddinbych – Hydref 2023

## Atodiad E: Crynodeb o’r Cyfweliad - Teithio Ymlaen

Gwnaeth ORS gyfweld â chynrychiolydd o Teithio Ymlaen ar gyfer y GTAA yn 2021[8].

Mae Teithio Ymlaen yn sefydliad sy’n rhoi cymorth, cyngor ac eiriolaeth i deuluoedd Sipsiwn, Teithwyr a Roma ledled Cymru. Maen nhw wedi helpu i godi ymwybyddiaeth o Asesiadau Llety ledled Cymru i sicrhau bod y Teithwyr yn cael eu cynrychioli ac yr oedden nhw wedi gallu cynnig cymorth i ORS ymgysylltu â Chymuned y Teithwyr yn Sir Ddinbych ar gyfer yr Asesiad diweddaraf.

Tynnwyd sylw at y materion canlynol yn ystod y drafodaeth ag ORS ac maen nhw’n ymwneud â materion presennol yn Sir Ddinbych, a chyd-destun ehangach llety Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn Teithiol yng Nghymru..

[8] https://www.tgpcymru.org.uk/what-we-do/travelling-ahead-wales-gypsy-roma-and-traveller-advice-and-advocacy-service/

# Opinion Research Services –Diweddariad ar Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr Cyngor Sir Ddinbych – Hydref 2023

**Materion yn Benodol i Sir Ddinbych**

- Credwyd, yng Nghyngor Sir Ddinbych, y dylid parhau i ymgysylltu ag aelodau o Gymuned y Teithwyr, gan gynnwys meithrin perthynas ag aelodau etholedig. Dylai'r ymgysylltu hwn arwain at feithrin gwell dealltwriaeth o anghenion Teithwyr a chryfhau dealltwriaeth o ddyletswydd yr Awdurdod Lleol i ddarparu safleoedd.
- Yn sail i’r holl waith yn ymwneud â llety Sipsiwn a Theithwyr yn Sir Ddinbych y mae’r hanes diweddar ynghylch penderfyniad y pwyllgor cynllunio i wrthod y safle a gyflwynodd Swyddogion y Cyngor y llynedd (2020). Roedd gwrthwynebiad ymhlith y cyhoedd pan gafodd y safle ei wrthod. Mae'r broses wedi gwneud niwed difesur i ffydd y gymuned o ran pa mor debygol ydyw y bydd y Cyngor yn fodlon neu'n gallu darparu unrhyw safleoedd yn y dyfodol agos. Cafodd hyn effaith ar y teulu lleol a oedd i fod i gael y safle, yn ogystal â’r gymuned gyfan ledled Gogledd Cymru. Mae'n rhaid i'r Cyngor weithio i fynd i'r afael â'r materion hyn yn systematig ac ar frys os oes unrhyw obaith o feithrin yr ymddiriedaeth hon
- Deallir bod gwaith y Swyddog Cyswllt Sipsiwn a Theithwyr newydd yng Nghyngor Sir Ddinbych wedi helpu i reoli gwersylloedd yn yr ardal. Credwyd ei fod wedi caniatáu ar gyfer trafodaethau aros sydd wedi gwneud trefniadau sydd o fudd i'r ddwy ochr ac sy'n meithrin perthnasoedd/enw da ag aelodau o gymuned y Teithwyr.

# Opinion Research Services –Diweddariad ar Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr Cyngor Sir Ddinbych – Hydref 2023

**Materion Rhanbarthol/Cenedlaethol Ehangach**

- Nodwyd y gallai fod angen heb ei nodi yn deillio o bobl sy'n byw mewn llety nomadaidd, fel faniau, sy'n byw'n rheolaidd ar arfordir Gogledd Cymru. Mae hyn yn cynnwys pobl ar eu gwyliau ac eraill na fydden nhw'n cael eu hystyried yn Deithwyr Sipsiwn traddodiadol. Nid yw'r bobl hyn felly yn ddarostyngedig i'r un math o graffu a'r un math o ymateb gan bobl leol a Chynghorau ag y byddai'r rhai a ystyrir yn Sipsiwn a Theithwyr.
- Ystyrir bod diffyg darpariaeth dramwy yng Ngogledd Cymru yn bryder mawr, yn enwedig ar ôl i'r angen am ddarpariaeth dramwy gael ei nodi yn y cylch diwethaf o Asesiadau ac nad oes unrhyw ddarpariaeth wedi'i chyflwyno. Nid yw dyletswydd y Ddeddf Tai wedi'i chyflawni ac nid yw'n dangos unrhyw arwyddion o gael ei chyflawni. Awgrymwyd y gellid gofyn am gyngor gan sefydliadau y tu allan i Gynghorau ar y mater hwn a'i drafod â phobl sydd â phrofiad o deithio. Teimlwyd mai ymgysylltu ag aelodau o gymuned y Teithwyr fyddai'r ffordd orau o nodi sut beth fyddai'r ddarpariaeth dramwy.  Yn ogystal â hyn, dylai'r Cyngor fod yn monitro'r sefyllfa yn barhaus a sicrhau ei fod yn gyfrifol am ddiffyg gweithredu.
- O ystyried y diffyg cynnydd o ran darpariaeth dramwy yng Ngogledd Cymru, mae pryder ynghylch a yw'r broses GTAA yn ei chyfanrwydd yn cynnig y rhwydwaith cymorth i deuluoedd nomadaidd sydd ei angen mewn gwirionedd. Tra bod anghenion yn cael eu mesur yn systematig, gellir cwestiynu a yw'r hyn a nodir yn cael ei fonitro a/neu ei weithredu'n gywir. Pryderon ynghylch yr adolygiadau o wersylloedd sy'n cael eu cynnal gan yr heddlu a Chynghorau ledled Gogledd Cymru nad yw'n cynnwys Sipsiwn a Theithwyr o gwbl.

## Opinion Research Services –Diweddariad ar Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr Cyngor Sir Ddinbych – Hydref 2023

- Dymunai Teithio Ymlaen weld Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo math o 'gymorth cyn gwneud cais' i Deithwyr sydd am brynu tir. Mae hyn er mwyn cyfyngu ar ba mor aml y mae Teithiwr yn prynu tir nad yw'n addas ar gyfer llety parhaol.
- Hoffai Teithio Ymlaen hefyd weld Llywodraeth Cymru yn rhoi grantiau ac yn annog prydlesi fel y gall pobl nad oes ganddynt eu hadnoddau eu hunain ddefnyddio tir yn yr hirdymor.

# Opinion Research Services –Diweddariad ar Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr Cyngor Sir Ddinbych – Hydref 2023

## Atodiad F: Enghreifftiau o Gyhoeddusrwydd (GTAA 2021)

# Opinion Research Services –Diweddariad ar Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr Cyngor Sir Ddinbych – Hydref 2023

## NEW - Gypsy and Traveller Accommodation Assessment 2022

**Conwy and Denbighshire County Councils invite you to take part in a survey to make sure we know what your accommodation needs are.**

- Are you a Gypsy, Travelling Show person or Traveller?
- Do you live in, or stop off in Conwy and/or Denbighshire?
- Do you find it hard to find the right places to live or stop off in Conwy and/or Denbighshire?

If the answer is **YES** then please contact Opinion Research Services who are doing the work for the councils, to take part in the new survey to help us assess your needs.

Contact: **Michael Bayliss**
**07471 267095** or **01792 535300**
**Michael.Bayliss@ors.org.uk**

Thank you for your help.

## Opinion Research Services –Diweddariad ar Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr Cyngor Sir Ddinbych – Hydref 2023



# Opinion Research Services –Diweddariad ar Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr Cyngor Sir Ddinbych – Hydref 2023

Copy of DCC Website page – uploaded 5/8/21

## New Gypsy and Traveller Accommodation Assessment 2022

- Are you a Gypsy, Travelling Show person or Traveller?
- Do you live in, or stop off in Denbighshire?
- Do you find it hard to find the right places to live or stop off in Denbighshire?

If the answer is **yes** then please contact ORS (who are doing the work for the Council) to take part in the new survey to help us assess your needs.

**Contact:** Michael Bayliss
**Phone:** 07471 267095 or 01792 535300
**Email:** Michael.Bayliss@ors.org.uk

The Council has to carry out a new Gypsy and Traveller Accommodation Assessment (GTAA) to assess the current and future accommodation needs of Gypsy, Travelling Show People and Traveller families in Denbighshire. This study once complete and approved by Welsh Government will replace the previous one approved in 2017. You can access a copy of the previous assessment below.

2017 Gypsy and Traveller Accommodation Assessment (PDF, 2.75MB)

The Council is keen that anybody who identifies as a member of the Gypsy, Travelling Show People or Traveller community has the opportunity to take part in the study to ensure that their current and future accommodation needs are assessed. This is for both residential need and any need for sites for families travelling through Denbighshire. The invitation to take part in the survey applies equally to all members of the above communities whether currently in traditional caravan or trailer living or currently living in Bricks and Mortar accommodation.

If you would like to take part in the study, or if you know somebody who should be included in the survey then please contact the survey team:

**Contact:** Michael Bayliss
**Phone:** 07471 267095 or 01792 535300
**Email:** Michael.Bayliss@ors.org.uk

**Related websites**

Guidance for those supporting Gypsy and Traveller communities: COVID-19 (external website)

**Document accessibility**


Download Adobe Acrobat Reader from Adobe.com.

What we're doing to improve accessibility.

# Opinion Research Services –Diweddariad ar Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr Cyngor Sir Ddinbych – Hydref 2023

Copy of DCC facebook post 09/08/2021

https://www.facebook.com/denbighshirecountycouncil



# Opinion Research Services –Diweddariad ar Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr Cyngor Sir Ddinbych – Hydref 2023

Rhyl Journal 09/08/2021

https://www.denbighshirefreepress.co.uk/news/19500585.survey-help-produce-needs-assessment-gypsy-traveller-accommodation/

News

9th August

## Survey to help produce needs assessment for Gypsy and Traveller accommodation

By Arron Evans | @ArronEvansNews
Reporter



A new gypsy and traveller site is being looked into in Denbighshire.






0 comment


**A SURVEY has been launched as part of work to produce an up to date needs assessment for Gypsy and Traveller accommodation in Denbighshire.**

Denbighshire County Council is assessing current accommodation need for Gypsies, Traveller and Travelling Show people and this does not include looking for locations for sites.

The process will include talking to Gypsy and Traveller families, key stakeholders and representative groups and will run until 7 October 2021.

Most read | Commented

# Opinion Research Services –Diweddariad ar Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr Cyngor Sir Ddinbych – Hydref 2023



# Opinion Research Services –Diweddariad ar Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr Cyngor Sir Ddinbych – Hydref 2023

## Atodiad G: Nodyn Technegol ar Ffurfio Aelwydydd a Chyfraddau Twf

Opinion Research Services

Excellent research for the public, voluntary and private sectors

# Nodyn Technegol Cyfraddau Twf a Ffurfio Aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr Mehefin 2020

# Opinion Research Services

Opinion Research Services | Y Strand  Abertawe  SA1 1AF | 01792 535300 |

www.ors.org.uk | info@ors.org.uk

# Opinion Research Services | Cyfraddau Twf a Ffurfio Aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr | Mehefin 2020

Yn yr un modd â phob un o'n hastudiaethau, mae Telerau ac Amodau Contract Safonol *Opinion Research Services* yn berthnasol i'r gwaith ymchwil hwn.

Rhaid cael cymeradwyaeth ORS cyn cyhoeddi'r gwaith ymchwil hwn neu ryddhau unrhyw ddatganiad i'r wasg amdano. Dim ond os bydd y wybodaeth yn anghywir neu wedi'i chamliwio y byddwn yn gwrthod cymeradwyaeth o'r fath.

© Hawlfraint Mehefin 2020

Cynnwys

# Opinion Research Services | Cyfraddau Twf a Ffurfio Aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr | Mehefin 2020


Cynnwys ......................................................................................................3

Cyfraddau Twf Aelwydydd ...........................................................................4

Crynodeb a Chasgliadau ..............................................................................4

Cyflwyniad ....................................................................................................6

Modelu Cyfraddau Twf Poblogaeth ac Aelwydydd .......................................6

Effeithiau Mudo ............................................................................................7

Proffil y Boblogaeth ......................................................................................7

Cyfraddau Geni a Ffrwythlondeb...................................................................9

Cyfraddau Marwolaeth .................................................................................10

Canlyniadau'r Modelu...................................................................................10

Twf mewn Aelwydydd...................................................................................11

Crynodeb o'r Casgliadau..............................................................................14


# Cyfraddau Twf Aelwydydd

## Crynodeb a Chasgliadau

1. Mae cyfraddau twf a ffurfio aelwydydd cenedlaethol a lleol yn gydrannau pwysig o asesiadau o anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr, ond hyd at 2013, ychydig o waith manwl a oedd wedi'i gyflawni i asesu eu graddfa debygol. Aeth ORS ati i asesu cyfradd dwf demograffig debygol y boblogaeth Sipsiwn a Theithwyr yn 2013, gan gasglu y gallai'r ffigwr fod cyn ised â 1.25% y flwyddyn, ond bod y dystiolaeth orau a oedd ar gael yn cefnogi cyfradd dwf aelwydydd net genedlaethol o 1.50% y flwyddyn.

2. Cynhyrchwyd y dadansoddiad hwn fel dogfen ar wahân yn 2013 a chafodd ei ddiweddaru yn 2015 (www.opinionresearch.co.uk/formation2015) yn sgil sylwadau academyddion, asiantiaid cynllunio ac awdurdodau lleol. Roedd dogfen 2015 yn un cymhleth gan fod anghydfod difrifol o hyd ynglŷn â lefel twf demograffig Sipsiwn a Theithwyr yn 2015. Fodd bynnag, mae ORS bellach o'r farn fod yr anghydfod hwn wedi'i ddatrys i raddau helaeth gan Apeliadau Cynllunio ac Archwiliadau Cynlluniau Lleol, felly ystyriwn nad oes angen cynnwys llawer o'r dystiolaeth ategol yn y ddogfen.

3. Mae'r ddogfen gyfredol hon yn cynrychioli ail-ddatganiad byrrach o'n canfyddiadau yn 2015, er mwyn gallu deall y materion dan sylw yn haws. Nid yw'n cynnwys unrhyw waith ymchwil newydd, ac os hoffai'r darllenwyr weld manylion pellach y wybodaeth ategol, dylent adolygu adroddiad manylach 2015.

# Opinion Research Services | Cyfraddau Twf a Ffurfio Aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr | Mehefin 2020

## Cyflwyniad

4. O'i gymharu â'r boblogaeth gyffredinol, mae ieuenctid cymharol nifer o boblogaethau Sipsiwn a Theithwyr yn golygu bod eu cyfraddau geni yn debygol o gynhyrchu twf uwch na'r cyfartaledd yn y boblogaeth, a chyfraddau ffurfio aelwydydd gros cyfatebol uwch. Fodd bynnag, er bod eu cyfradd twf aelwydydd gros yn uchel, mae anghenion llety cymunedau Sipsiwn a Theithwyr yn y dyfodol yn cael eu heffeithio, yn ymarferol, gan unrhyw ostyngiad yn nifer yr aelwydydd yn sgil diddymiad a/neu symudiadau i mewn i'r ardal/allan ohoni a/neu drosglwyddo i fathau eraill o dai. Felly, y gyfradd dwf aelwydydd net yw'r gyfradd ffurfio gros tynnu unrhyw ostyngiadau mewn aelwydydd yn sgil ffactorau o'r fath.

## Modelu Cyfraddau Twf Poblogaeth ac Aelwydydd

5. Mae'r hafaliad sylfaenol ar gyfer cyfrifo cyfradd dwf poblogaeth Sipsiwn a Theithwyr yn ymddangos yn syml: dechrau gyda'r boblogaeth sylfaenol ac yna cyfrifo'r cynnydd/gostyngiad cyfartalog drwy ganiatáu ar gyfer genedigaethau, marwolaethau, mewnfudiad/allfudiad a diddymu aelwydydd. Serch hynny, mae'n anodd cael amcangyfrifon boddhaol gan fod y dystiolaeth yn aml yn ansylweddol. Felly, yn y cyd-destun hwn yn 2013, aeth ORS ati i fodelu twf y boblogaeth Sipsiwn a Theithwyr genedlaethol ar sail y cyfraddau geni a marw mwyaf tebygol, a drwy ddefnyddio PopGroup (y feddalwedd flaenllaw ar gyfer rhagfynegi poblogaethau ac aelwydydd). I wneud hynny, bu i ni ategu'r ffynonellau ystadegol cenedlaethol a oedd ar gael gyda data a gawsom o'n harolygon ein hunain.

## Effeithiau Mudo

6. Mae mudo net cenedlaethol a mudo lleol yn effeithio ar dwf y boblogaeth (gan fod Sipsiwn a Theithwyr yn symud o un ardal i'r llall). O ran mudo cenedlaethol, mae poblogaeth y Sipsiwn a Theithwyr yn gymharol sefydlog, gydag ychydig iawn o fudo rhyngwladol. Mae'n bosib mewn egwyddor i Deithwyr Gwyddelig (wedi'u lleoli yn Iwerddon) symud i'r DU, ond nid oes unrhyw dystiolaeth bod hyn yn digwydd i raddau sylweddol, ac fe anwyd y mwyafrif helaeth o Deithwyr Gwyddelig yn y DU neu maent yn drigolion hirdymor.

## Proffil y Boblogaeth

7. Prif ffynhonnell cyfradd dwf y boblogaeth Sipsiwn a Theithwyr yw Cyfrifiad 2011 y DU. Roedd y cwestiwn ar ethnigrwydd yng Nghyfrifiad 2011 yn cynnwys 'Sipsiwn a Theithiwr Gwyddelig' fel categori penodol am y tro cyntaf. Er bod y duedd i beidio ag ateb yn debygol o olygu yr amcangyfrifwyd maint y boblogaeth yn rhy isel, nid yw'r proffil oedran a geir gan y Cyfrifiad o reidrwydd wedi'i ystumio ac mae'n cyd-fynd â'r proffil a gafwyd o arolygon aelwydydd helaeth ORS.

Tabl 1 - Proffil Oedran y Gymuned Sipsiwn a Theithwyr yn Lloegr (Ffynhonnell: Cyfrifiad Poblogaeth y DU 2011)

| Grŵp Oedran | Nifer y Bobl | Canran Cronnol |
|---|---:|---:|
| Rhwng 0 a 4 oed | 5,725 | 10.4 |
| Rhwng 5 a 7 oed | 3,219 | 16.3 |
| Rhwng 8 a 9 oed | 2,006 | 19.9 |
| Rhwng 10 a 14 oed | 5,431 | 29.8 |
| 15 oed | 1,089 | 31.8 |
| Rhwng 16 a 17 oed | 2,145 | 35.7 |
| Rhwng 18 a 19 oed | 1,750 | 38.9 |
| Rhwng 20 a 24 oed | 4,464 | 47.1 |
| Rhwng 25 a 29 oed | 4,189 | 54.7 |
| Rhwng 30 a 34 oed | 3,833 | 61.7 |
| Rhwng 35 a 39 oed | 3,779 | 68.5 |
| Rhwng 40 a 44 oed | 3,828 | 75.5 |
| Rhwng 45 a 49 oed | 3,547 | 82.0 |
| Rhwng 50 a 54 oed | 2,811 | 87.1 |
| Rhwng 55 a 59 oed | 2,074 | 90.9 |
| Rhwng 60 a 64 oed | 1,758 | 94.1 |
| Rhwng 65 a 69 oed | 1,215 | 96.3 |
| Rhwng 70 a 74 oed | 905 | 97.9 |
| Rhwng 75 a 79 oed | 594 | 99.0 |
| Rhwng 80 ac 84 oed | 303 | 99.6 |
| 85 oed a hŷn | 230 | 100.0 |

## Cyfraddau Geni a Ffrwythlondeb

8. Mae'r tabl uchod yn rhoi ffordd i ni ddeall cyfradd twf y boblogaeth drwy enedigaethau. Dengys y tabl fod y plant sy'n goroesi rhwng 0 a 4 oed yn llunio 10.4% o'r boblogaeth Sipsiwn a Theithwyr. Golyga hyn fod 2.1% o'r boblogaeth gyfan, ar gyfartaledd, wedi'u geni bob blwyddyn (dros y 5 mlynedd diwethaf). Caiff yr un amcangyfrif ei gadarnhau os ystyriwn ni fod y rhai rhwng 0 ac 14 oed yn llunio 29.8% o'r boblogaeth Sipsiwn a Theithwyr. Golyga hyn hefyd fod bron i 2% ar ei ben o'r boblogaeth wedi'u geni bob blwyddyn.

   Mae cyfanswm y gyfradd ffrwythlondeb ar gyfer poblogaeth gyfan y DU ychydig o dan 2, sy'n golygu bod disgwyl i bob merch, ar gyfartaledd, gael ychydig yn llai na dau o blant sy'n tyfu i fod yn oedolion. Gwyddom am un amcangyfrif yn unig o gyfraddau ffrwythlondeb cymuned Sipsiwn a Theithwyr y DU, a hwnnw yn 'Ethnic identity and inequalities in Britain: The dynamics of diversity' gan Dr Stephen Jivraj a'r Athro Ludi Simpson (cyhoeddwyd ym mis Mai 2015). Mae'r awduron yn defnyddio data Cyfrifiad 2011 i amcangyfrif bod cyfanswm cyfradd ffrwythlondeb y gymuned Sipsiwn a Theithwyr yn 2.75.

9. Defnyddiodd ORS ein data ein hunain o amryw o arolygon i ymchwilio i gyfraddau ffrwythlondeb merched y gymuned Sipsiwn a Theithwyr. Dengys data ORS fod gan ferched y gymuned Sipsiwn a Theithwyr sy'n 32 mlwydd oed 2.5 o blant ar gyfartaledd (ond, gan fod plant mamau hŷn na'r oedran hwn yn tueddu i adael cartref o dipyn i beth, ni chwblhawyd cyfanswm llawn y cyfraddau ffrwythlondeb). Ar y sail hon, mae'n rhesymol casglu cyfartaledd o 3 phlentyn i bob merch yn ystod ei hoes, sy'n gyson yn fras â'r amcangyfrif o 2.75 o blant i bob merch a gafwyd o Gyfrifiad 2011.

## Cyfraddau Marwolaeth

10. Er bod y data uchod yn awgrymu cyfradd dwf flynyddol drwy enedigaethau o tua 2%, rhaid hefyd ystyried cyfradd y marwolaethau. Y disgwyliad oes cyfartalog ar draws poblogaeth gyfan y DU ar hyn o bryd yw ychydig dros 80 oed, ond canfu astudiaeth gan Brifysgol Sheffield fod disgwyliad oes y gymuned Sipsiwn a Theithwyr tua 10 i 12 mlynedd yn llai na'r cyfartaledd (Parry et al (2004) 'The Health Status of Gypsies and Travellers: Report of Department of Health Inequalities in Health Research Initiative', University of Sheffield).

11. Felly, wrth fodelu twf y boblogaeth, bu i ni ddefnyddio 72 mlwydd oed fel amcangyfrif ceidwadol o'r disgwyliad oes. Mae hyn yn gwbl gyson â'r nifer llai na'r cyfartaledd o Sipsiwn a Theithwyr sydd dros 70 oed yng Nghyfrifiad 2011 (a hefyd yn y data o arolygon ORS).

## Canlyniadau'r Modelu

12. Os tybiwn ni gyfanswm cyfraddau ffrwythlondeb o 3 a disgwyliad oes cyfartalog o 72 mlwydd oed ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr, yna mae'r gwaith modelu, a wnaed gan ddefnyddio PopGroup, yn rhagfynegi y bydd y boblogaeth yn cynyddu 66% dros y 40 mlynedd nesaf. Mae hyn yn awgrymu cyfradd dwf gyfansawdd yn y boblogaeth o 1.25% y flwyddyn. Os tybiwn ni bod disgwyliad oes Sipsiwn a Theithwyr yn cynyddu i 77 mlwydd oed erbyn 2050, yna mae'r gyfradd dwf arfaethedig yn y boblogaeth yn codi i bron i 1.50% y flwyddyn. I gynhyrchu cyfradd 'ystod uwch' o dwf yn y boblogaeth, bu i ni dybio cyfanswm cyfradd ffrwythlondeb annhebygol o 4 a bod y disgwyliad oes cyfartalog yn codi i 77 mlwydd oed dros y 40 blynedd nesaf. Mae hyn yn cynhyrchu cyfradd dwf 'ystod uwch' o 1.90% y flwyddyn.

## Twf mewn Aelwydydd

13. Yn ogystal â bod twf yn y boblogaeth yn dylanwadu ar nifer yr aelwydydd, mae maint yr aelwydydd hefyd yn effeithio ar y nifer. Felly, nid yw cyfraddau twf yn y boblogaeth a'r aelwydydd o reidrwydd yn cyfateb yn uniongyrchol, yn bennaf oherwydd y duedd gyfredol i bobl fyw mewn aelwydydd llai un person neu heb blant.

14. Gan fod y boblogaeth Sipsiwn a Theithwyr yn gymharol ifanc gyda nifer o aelwydydd un rhiant, gallai twf blynyddol o 1.25% i 1.50% yn y boblogaeth gynhyrchu cyfraddau twf aelwydydd uwch na'r cyfartaledd, yn enwedig os bydd meintiau aelwydydd cyfartalog yn gostwng neu os bydd aelwydydd iau na'r cyfartaledd yn ffurfio. Fodd bynnag, er bod tystiolaeth bod aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr eisoes yn ffurfio ar oedran iau na'r boblogaeth gyffredinol, mae'r cyfle am gyfradd dwf gyflymach, drwy ffurfio aelwydydd hyd yn oed yn iau, yn gyfyngedig.

15. Ar sail Cyfrifiad 2011, mae'r tabl isod yn cymharu oedran cynrychiolwyr aelwyd mewn aelwydydd yn Lloegr â'r rhai mewn aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr, gan ddangos bod gan yr ail lawer mwy o gynrychiolwyr aelwyd o dan 25 oed. Ym mhoblogaeth gyffredinol Lloegr, mae 3.60% o gynrychiolwyr aelwyd rhwng 16 a 24 oed, o'i gymharu â 8.70% yn y boblogaeth Sipsiwn a Theithwyr. Dengys data arolygon ORS fod gan tua 10% o aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr gynrychiolwyr aelwyd o dan 25 oed.

Tabl 2 - Oedran Pennaeth yr Aelwyd (Ffynhonnell: Cyfrifiad Poblogaeth y DU 2011)

| | Pob aelwyd yn Lloegr | | Aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr yn Lloegr | |
|---|---|---|---|---|
| Oedran cynrychiolydd yr aelwyd | Nifer yr aelwydydd | Canran yr aelwydydd | Nifer yr aelwydydd | Canran yr aelwydydd |
| 24 oed ac iau | 790,974 | 3.6% | 1,698 | 8.7% |
| Rhwng 25 a 34 oed | 3,158,258 | 14.3% | 4,232 | 21.7% |
| Rhwng 35 a 49 oed | 6,563,651 | 29.7% | 6,899 | 35.5% |
| Rhwng 50 a 64 oed | 5,828,761 | 26.4% | 4,310 | 22.2% |
| Rhwng 65 a 74 oed | 2,764,474 | 12.5% | 1,473 | 7.6% |
| Rhwng 75 ac 84 oed | 2,097,807 | 9.5% | 682 | 3.5% |
| 85 oed a hŷn | 859,443 | 3.9% | 164 | 0.8% |
| Cyfanswm | 22,063,368 | 100% | 19,458 | 100% |

16. Mae’r tabl canlynol yn dangos nad yw’r gyfran o aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr un person yn annhebyg i boblogaeth ehangach Lloegr; ond mae yna fwy o rieni unigol, llai o gyplau heb blant a llai o aelwydydd â phlant nad ydynt yn ddibynnol ymysg Sipsiwn a Theithwyr.

Tabl 3 - Math o Aelwyd (Ffynhonnell: Cyfrifiad Poblogaeth y DU 2011)

| | Pob aelwyd yn Lloegr | | Aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr yn Lloegr | |
|---|---|---|---|---|
| Math o aelwyd | Nifer yr aelwydydd | Canran yr aelwydydd | Nifer yr aelwydydd | Canran yr aelwydydd |
| Un person | 6,666,493 | 30.3% | 5,741 | 29.5% |
| Cwpwl heb blant | 5,681,847 | 25.7% | 2345 | 12.1% |
| Cwpwl gyda phlant dibynnol | 4,266,670 | 19.3% | 3683 | 18.9% |
| Cwpwl gyda phlant nad ydynt yn ddibynnol | 1,342,841 | 6.1% | 822 | 4.2% |
| Un rhiant: Plant dibynnol | 1,573,255 | 7.1% | 3,949 | 20.3% |
| Un rhiant: Pob plentyn yn annibynnol | 766,569 | 3.5% | 795 | 4.1% |
| Aelwydydd eraill | 1,765,693 | 8.0% | 2,123 | 10.9% |
| Cyfanswm | 22,063,368 | 100% | 19,458 | 100% |

17. Ond y pwynt allweddol yw, gan fod 20% o aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr yn aelwydydd un rhiant gyda phlant dibynnol, a bod hyd at 30% yn aelwydydd un person, nad oes yna lawer o botensial y bydd gostyngiadau pellach ym maint cyfartalog yr aelwydydd yn cynyddu cyfraddau ffurfio aelwydydd cyfredol yn sylweddol. Ac nid oes unrhyw reswm i feddwl y bydd ffurfio aelwydydd yn iau na chyfraddau ysgaru cynyddol yn effeithio cyfraddau ffurfio aelwydydd yn y tymor canolig. Er bod yna wahaniaethau gyda'r boblogaeth gyffredinol, mae cyfradd dwf o 1.25% i 1.50% y flwyddyn yn y boblogaeth Sipsiwn a Theithwyr yn debygol o arwain at gyfradd dwf aelwydydd o 1.25% i 1.50% y flwyddyn.

## Crynodeb o'r Casgliadau

18. Mae'r dystiolaeth orau sydd ar gael yn awgrymu bod cyfradd dwf flynyddol net yr aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr yn 1.50% y flwyddyn. Gallai rhai awdurdodau lleol ganiatáu ar gyfer cyfradd dwf aelwydydd o hyd at 2.50% y flwyddyn, er mwyn cynnig 'lwfans' os yw eu poblogaethau'n gymharol ifanc. Ond mewn ardaloedd lle mae arolygon safle yn dangos bod llai o blant yn y boblogaeth Sipsiwn a Theithwyr, dylid defnyddio amcangyfrifon is.

19. Gellir defnyddio canlyniadau'r Nodyn Technegol hwn i gynnig amcangyfrif o gyfraddau ffurfio aelwydydd newydd lleol drwy addasu'r gyfradd dwf genedlaethol uchaf o 1.50% ar sail nodweddion demograffig lleol.

20. Yn ogystal, mewn rhai amgylchiadau pan fo nifer yr aelwydydd a nifer y plant yn uwch neu'n is nag a nodwyd yn y data cenedlaethol, neu pan fo strwythur oedran y boblogaeth wedi'i ogwyddo gan grwpiau oedran penodol, efallai nad yw'n briodol defnyddio cyfradd ganrannol ar gyfer aelwydydd newydd sy'n ffurfio. Yn yr achosion hyn, dylid barnu ar sail y tebygolrwydd o aelwydydd newydd yn ffurfio yn seiliedig ar oedran a rhywedd y plant a nodir mewn cyfweliadau aelwydydd lleol. Dylid seilio hyn ar y rhagdybiaeth bod 50% o'r aelwydydd sy'n debygol o ffurfio yn aros mewn ardal benodol, ac y bydd 50% yn paru ac yn symud i ardal arall, gan ystyried effaith ddiddymiad hefyd. Mae hyn yn seiliedig ar dystiolaeth o dros 140 o Asesiadau o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr y mae ORS wedi'u cwblhau ledled Cymru a Lloegr, sy'n cynnwys dros 4,300 o gyfweliadau aelwydydd.